# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 24 TACHWEDD 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | **MONDAY, 24 NOVEMBER, 2014 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*, Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Cynghorydd R.Meirion Jones *(Cadeirydd/Chair)*, Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC AELODAU**

Derbyn diweddariad ar ddatblygiadau gan y Cadeirydd ac Aelodau.

3 **COFNODION CYFARFOD 15 HYDREF, 2014** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd:

- 15 Hydref, 2014
- 4 Tachwedd, 2014

4 **CERDYN SGORFWRDD CORFFORAETHOL CHWARTER 2** (Tudalennau 13 - 26)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorfwrdd Corfforaethol am Chwarter 2 2014/15.

5 **MONITRO'R GYLLIDEB - CYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 2 2014/15** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 2 2014/15
*(Adroddiad i gyfarfod 3 Tachwedd 2014 y Pwyllgor Gwaith)*

6 **MONITRO'R GYLLIDEB - CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 2 2014/15** (Tudalennau 39 - 48)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw am Chwarter 2 2014/15.
*(Adroddiad i gyfarfod 3ydd Tachwedd, 2014 y Pwyllgor Gwaith)*

7 **CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW 2015/16** (Tudalennau 49 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro
*(Adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Gwaith 20 Hydref, 2014)*

8 **DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN DRAWSNEWID**

Derbyn diweddariad ar lafar ar gynnydd mewn perthynas â'r canlynol –

- Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth
- Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes

**9** **<u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>** (Tudalennau 53 - 54)

Ystyried mabwysiadu’r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir yn Atodlen 12A o’r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.”

**10** **<u>CYTUNDEBAU BYSIAU YSGOL - TENDRAU A STRWYTHUR TALIADAU</u>** (Tudalennau 55 - 60)

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Addysg Uwchradd.

**11** **<u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

Ystyried mabwysiadu’r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir yn Atodlen 12A o’r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.”

**(PRAWF BUDD Y CYHOEDD – ADRODDIAD HWYR)**

**12** **<u>CLWB GOLFF LLANGEFNI</u>**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Economaidd ac Adfywio Cymunedol.

**(ADRODDIAD HWYR)**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G. O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Raymond Jones, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers.<br><br>Parch Robert Townsend (Aelod Cyfetholedig – Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (eitem 6 ymlaen)<br>Dirprwy Brif Weithredwraig<br>Cyfarwyddwraig Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)<br>Rheolydd Trawsnewid Strategol (Gwasanaethau Oedolion) (JD)<br>Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol (DE)<br>Rheolydd Dros Dro y Gwasanaethau Cyfrifeg (BO) (eitem 4)<br>Rheolydd Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion) (EB) (eitem 9)<br>Swyddog Prosiect (GBH)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd Lewis Davies, Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig – Yr Eglwys Gatholig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Corfforaethol), Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg) , Y Cynghorwyr Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, J. Arwel Roberts, Dafydd Rhys Thomas (Aelodau Lleol ar gyfer eitem 9), Y Cynghorydd R. G. Parry, OBE (Aelod Lleol ar gyfer eitem 8), Pennaeth – Ysgol Llywelyn, Sir Ddinbych, Pennaeth Cynhwysiad Ysgol Llywelyn, Sir Ddinbych), Cynrychiolwyr o Ysgol Llaingoch, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (eitem 1). |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gofynnodd nifer o'r Aelodau am eglurhad mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer datgan diddordeb ynghylch eitem 9 ar y rhaglen – Moderneiddio Ysgolion – Ardal Caergybi.

Cynghorodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod tri senario wedi cael eu cyflwyno iddi gan yr Aelodau, sef bod yn Aelod Lleol; bod yn llywodraethwr ysgol a effeithir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y cynigion moderneiddio, ac yn drydydd bod â pherthynas bersonol agos gyda'r ysgol/ysgolion dan sylw oherwydd bod aelod o'r teulu naill ai'n ddisgybl yn yr ysgol(ion) neu yn gyflogedig ynddi. Ei chyngor mewn perthynas â bod yn Aelod Lleol yw fod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i wneud yn glir mewn canllawiau nad yw bod yn Aelod Lleol yn gyfystyr â diddordeb personol neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu; mae bod yn llywodraethwr a benodwyd gan y Cyngor ar ysgol yr effeithir arni yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn creu diddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu - byddai'n rhaid ei ddatgan ond nid yw'n rhwystr rhag cymryd rhan. Mae'r drydydd math o diddordeb ynglyn â bod efo cysylltiad agos personol hefyd yn gyfystyr â diddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu ac mae'n rhaid ei ddatgan - gall yr Aelod gymryd rhan yn y drafodaeth ar y mater yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini ac eithrio unrhyw Aelod a fydd yn rhan o'r broses ar gyfer gwneud y

penderfyniad ar y mater h.y. Aelod Lleol sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith.Yn yr achos hwnnw byddai'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu yn Sgriwtini a hefyd yn y Pwyllgor Gwaith.

Mewn perthynas â chyngor y Swyddog, gwnaed datganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau a ganlyn mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen –

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd R. Llewelyn Jones.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Raymond Jones.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Jeff Evans (Aelod Lleol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor).

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Lleol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor).

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Aelod Lleol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor).

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ac un sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd John Arwel Roberts (Aelod Lleol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor). Fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ymadawodd â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R AELODAU**

Penderfynwyd gohirio rhoi sylw i'r mater a bod yr Aelodau hynny sy'n dymuno rhoi diweddariad ar y cyfarfodydd a fynychwyd ganddynt yn anfon eu sylwadau at y Rheolydd Sgriwtini.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Medi 2014 a 26 Medi 2014 (arbennig) a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**4 CYLLIDEB 2015/16**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Rheolydd Dros Dro ar gyfer y Gwasanaethau Cyfrifeg ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â Chyllideb 2015/16.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod yr adroddiad a'r diffyg cyllidebol y mae'n cyfeirio ato yn seiliedig ar ragdybiaeth o ostyngiad o 4.5% yn y setliad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Dywedodd bod cadarnhad wedi ei dderbyn ers drafftio'r adroddiad y byddai'r gostyngiad yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn 3.9% sy'n cyfateb i wahaniaeth o thua £700,000. Fodd bynnag, mae'r toriad yn parhau i fod yn un sylweddol ac mae unrhyw fanteision yn sgil y ffaith fod y toriad yn llai na'r disgwyl yn debygol o gael eu gwrthbwyso gan gostau uwch i'r Cyngor. Bydd yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn ystod yr hydref yn cynnig opsiwn unwaith eto i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 5% sy'n sylweddol uwch na chwyddiant ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i'r Aelod Portffolio wneud sylw ar gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac a ddylid fod wedi cyflwyno'r cynllun diswyddo gwirfoddol yn gynt fel rhan o gynllun i ddelio â'r gostyngiad yn y cyllid, yn arbennig felly o gofio llymder y toriadau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y cafwyd gwared ar nifer o swyddi y llynedd trwy'r cynllun diswyddo gwirfoddol ac, yn anffodus, bydd yr opsiwn yn cael ei gynnig a'i ystyried eto eleni. Mae'r Awdurdod bob amser wedi ceisio sicrhau ei fod yn cadw ei gronfeydd wrth gefn ar lefel sy'n cyfateb i 5% o'r gyllideb flynyddol, yn ogystal â sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi i ddibenion penodol. Nid oedd yn ystyried bod gan yr Awdurdod ormod o arian wrth gefn.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Gyllideb.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI.**

## 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

## 6 PROSIECT GWEITHIO'N GALLACH

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol yn ymgorffori Achos Busnes llawn ar gyfer bwrw ymlaen gyda'r Prosiect Gweithio'n Gallach ar y llinellau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad fod y prosiect gweithio'n gallach wedi ei anelu tuag at ddarparu amrediad o arbedion fel yr amlinellir yn yr adroddiad ond, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl arbedion, mae'n rhaid derbyn a mabwysiadu'r prosiect yn ei gyfanrwydd gan gynnwys y cynigion o fewn y tri argymhelliad eang. Yn seiliedig ar gyngor a gafwyd gan y Swyddog Adran 151, mae arbedion yn annhebygol o gael eu gwneud os mabwysiedir ymagwedd dameidiog yn unig. Fodd bynnag, gellir cefnogi'r adroddiad yn ei gyfanrwydd ar y ddealltwriaeth na fydd holl elfennau'r prosiect yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd ac y gellid addasu a diwygio rhai agweddau o fewn amserlen gyffredinol y prosiect. Mae nifer o'r agweddau o fewn yr adroddiad yn tarddu o syniadau a gynigiwyd gan y gweithlu ac mae'n hollbwysig felly bod y neges yn cael ei chyfleu bod yr Awdurdod yn gwrando ar awgrymiadau a wneir gan staff a'u bod yn syniadau y gallai'r Rheolwyr weithio gyda nhw i geisio moderneiddio cyfleusterau, y ddarpariaeth o wasanaethau ac arferion gweithio yn y Cyngor.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod yr adroddiad yn un arwyddocaol i'r sefydliad oherwydd ei fod yn ymwneud â moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, y defnydd o dechnoleg a'r ffordd o reoli asedau. Cadarnhaodd y Swyddog y sylwadau gan yr Aelod Portffolio bod angen gweithredu holl elfennau'r adroddiad yn hytrach na dim ond darnau penodol ohono er mwyn sicrhau bod modd cyflawni buddion llawn y prosiect. Mae'r adroddiad yn ffrwyth llawer iawn o waith ac mae wedi ei seilio ar waith ymchwil i arferion gweithio awdurdodau eraill a sut maent wedi ymateb i'r rhaglen gweithio'n gallach ac mae wedi cymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd o'u profiadau.

Gofynnodd y Cadeirydd i Reolydd y Rhaglen Gorfforaethol beidio â rhoi'r cyflwyniad llawn ond ei bod yn cyflwyno'r pwyntiau allweddol yn unig, a hynny oherwydd cyfyngiadau amser yn sgil y rhaglen.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad gan gydnabod trylwyredd ac ansawdd y gwaith. Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi ei raglennu yn ei raglen waith ar gyfer ei gyflwyno i'w gyfarfod ym mis Gorffennaf a bod cyfyngiad arno o ran yr amser yr oedd yn medru rhoi i'r mater yn y cyfarfod heddiw oherwydd pwysau yn sgil yr eitemau eraill oedd ar y rhaglen. Gwnaed pwynt gan y Pwyllgor y byddai wedi gwerthfawrogi cael mwy o gyfle i roi sylw manwl i'r ddogfennaeth trwy sesiwn friffio bwrpasol cyn y cyfarfod.

Er bod y Pwyllgor yn derbyn y ffordd gydlynol yr oedd yr achos ar gyfer y prosiect wedi ei wneud, tynnodd sylw at yr amheuon isod a oedd yn gweithio yn erbyn iddo fedru cefnogi gweithredu a bwrw ymlaen gyda'r prosiect yn ei gyfanrwydd ar hyn o bryd:

- Yr ansicrwydd ynghylch diwygio llywodraeth leol. Nodwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 30 Medi wedi cadarnhau ei safiad i beidio ag uno'n wirfoddol gydag un neu ragor o awdurdodau ac roedd wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â manteision ariannol yn sgil gwirfoddoli i uno'n gynnar. Roedd y Pwyllgor yn credu bod amseriad y prosiect Gweithio'n Gallach a'i ofynion buddsoddi yn anamserol o ystyried yr hinsawdd bresennol o ansicrwydd a'r cyfarfod oedd yn cael ei ddisgwyl gyda'r Gweinidog a'r hyn allai ddilyn o'r cyfarfod hwnnw.

- Diffyg eglurder ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyflawni'r arbedion. Nid oedd y Pwyllgor yn teimlo ei fod wedi ei sicrhau y byddai'r prosiect yn rhoi'r arbedion angenrheidiol ac roedd yn amheus ynglŷn â sicrhau mewn ffordd amserol yr incwm a oedd yn cael ei ragweld o

dderbynion cyfalaf oedd i'w hail-fuddsoddi yn y prosiect. Cwestiynodd y Pwyllgor a oedd y rhagamcanion yn rhai realistig.

- Nid oedd y Pwyllgor yn gyfforddus gyda lefel y buddsoddiad yr oedd y prosiect ei angen ar amser pan oedd adnoddau'n lleihau a gwariant y gwasanaethau'n cael ei gwtogi. Nodwyd y gofynnwyd i wasanaethau nodi arbedion o hyd at 10% ac y byddai'r ymgynghori sydd ar ddod ar y gyllideb yn cael ei gynnal ar sail cynnydd 5% yn y Dreth Gyngor gyda hynny oll yn gwneud y cynigion buddsoddi a roddwyd ymlaen gan y prosiect Gweithio'n Gallach yn rhai anodd i'w cyfiawnhau. Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod llwybrau eraill ar gael i wneud arbedion effeithlonrwydd cyn y gellir mabwysiadu prosiect o'r maint hwn.

- Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y gellir gwneud gwell defnydd o brif swyddfeydd y Cyngor, roedd yn bryderus oherwydd yr argraff negyddol bosib y byddai gwario adnoddau ar ail-ddylunio swyddfeydd yn ei chreu mewn amgylchedd lle mae'r rhan fwyaf o agweddau eraill ar wasanaethau'r Cyngor yn cael eu rhesymoli.

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus gyda'r goblygiadau o ganolbwyntio cyfran sylweddol o'r arbedion arfaethedig o amgylch maes penodol.

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cynigion yng nghyswllt buddsoddi mewn isadeiledd a systemau TG fel rhywbeth oedd ar ôl ei amser.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod angen i'r Pwyllgor ystyried a yw'r Awdurdod yn gallu fforddio peidio â symud ymlaen gyda'r prosiect Gweithio'n Gallach. Mae'r crynodeb ariannol yn nodi'n glir yr arbedion refeniw blynyddol o £729k sydd i'w gwneud o weithredu'r cynigion nad ydynt yn cael effaith ar wasanaethau llinell flaen. Mae hwn yn arbediad refeniw fydd yn galluogi'r Awdurdod foderneiddio, i wasanaethu ei gwsmeriaid mewn ffordd fwy effeithiol ac i ddod â derbynion cyfalaf i mewn. Pe na bai'r prosiect yn mynd ymlaen, rhaid i'r Cyngor barhau i nodi arbedion sylweddol ond mewn ffordd fydd yn ei gwneud yn fwy anodd iddo weithredu fel sefydliad. Rhaid rhoi i'r awdurdod y gallu i'w alluogi i weithredu mewn amgylchiadau ariannol anodd. Tra bo diwygio llywodraeth leol yn rhywbeth eithaf tebygol, mae amserlen y prosiect o 2 - 3 blynedd yn golygu y bydd mewn gwell sefyllfa i oroesi'r 3 - 4 blynedd nesaf fel awdurdod o fewn y cyfyngiadau ariannol cyfredol.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol y bydd y prosiect yn gallu gwneud arbedion o Flwyddyn 1 ymlaen unwaith y caiff y buddsoddiad ei gadarnhau.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor i'r Pwyllgor Gwaith ohirio, dywedodd yr Arweinydd bod amser yn bwysig gyda'r prosiect hwn ac er ei fod yn gefnogol i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gael eu briffio'n fanwl, cadarnhaodd y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 20 Hydref fel oedd wedi'i drefnu.

**Yn dilyn ystyriaeth, penderfynwyd nodi, ac i gyfleu i'r Pwyllgor Gwaith, bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, er ei fod yn deall y weledigaeth a gafodd ei chyfleu gan y prosiect Gweithio'n Gallach, o'r farn, oherwydd materion amseru o amgylch diwygio posibl mewn llywodraeth leol a hinsawdd o ansicrwydd a thoriadau gwasanaeth ar hyn o bryd, nad yw'n gallu rhoi ei gefnogaeth i argymhellion yr adroddiad Prosiect Gweithio'n Gallach yn eu cyfanrwydd. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried rhinweddau rhai elfennau penodol o'r prosiect, yn benodol y buddsoddiad arfaethedig yn yr isadeiledd TG, ac y mae'n cymeradwyo hynny.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

## 8 OPSIYNAU GOFAL YCHWANEGOL YN LLANGEFNI AC AMLWCH

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Strategol (Gofal Cymdeithasol Oedolion) ynglŷn â dilyn ymlaen gyda datblygu gofal ychwanegol yn Amlwch a Llangefni.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod angen cael ei gefnogaeth mewn egwyddor i'r opsiynau ynglŷn â safleoedd tir fel oedd i'w gweld yn yr adroddiad fel rhan o gyfraniad y Cyngor tuag at ddatblygu Gofal Ychwanegol yn amodol ar y cymalau oedd wedi eu nodi, cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Hydref. Byddai cael caniatâd yn golygu y gallai'r prosiect gael ei symud ymlaen i'r cam nesaf.

Roedd y Pwyllgor yn unfrydol yn ei gefnogaeth i'r cynigion mewn egwyddor fel ffordd o symud y Prosiect Gofal Ychwanegol yn ei flaen ar y ddealltwriaeth na fyddai safleoedd tir posibl arall fel a awgrymwyd yn flaenorol yn cael eu gwrthod ac y byddant yn cael eu hystyried os byddant i'w gweld fel rhai ymarferol.

**Penderfynwyd cefnogi'r cynigion oedd yn yr adroddiad i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn symud y Prosiect Gofal Ychwanegol yn ei flaen i'r cam nesaf.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 9 MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL CAERGYBI

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried adroddiad y Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion) yn cynnwys canlyniad y broses ymgynghori ffurfiol a wnaed yng nghyswllt y bwriad i uno Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Parch Thomas Ellis mewn ysgol newydd ar safle Cybi fel y safle oedd yn cael ei ffafrio.

Yn y drafodaeth gynhwysfawr a ddilynodd ar y cynigion oedd wedi eu cynnig, cyfeiriodd y Pwyllgor at y materion a ganlyn gan ofyn am gael eglurhad pellach arnynt gan y Swyddogion.

- Pa mor ymarferol oedd cael dwy yn hytrach na thair ysgol yn uno ar safle Cybi a thrwy hynny greu ysgol lai ei maint. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod y bwriad i uno tair ysgol fel yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio ac fel sail yr ymgynghori yn hollol glir. Cyfeiriodd at adran 7.7 yr adroddiad oedd yn trafod digonolrwydd ac addasrwydd safle Cybi fel cartref i'r tair ysgol unedig.
- Argaeledd adroddiad traffig llawn ar lein ac awgrymwyd bod cydranddeiliaid angen mwy o amser i'w ystyried. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at y ffactorau tywydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod yr adroddiad y cyfeiriwyd ato yn cael ei ysgrifennu yn ystod y broses ymgynghori ond nad oedd ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r adroddiad llawn yn awr wedi ei ryddhau ac y mae'n crynhoi cynnwys yr Asesiad Effaith Traffig a dderbyniwyd ac y mae hwnnw yn adroddiad manwl iawn sy'n delio â nifer o faterion traffig. Roedd yr adroddiad ar yr ymgynghori yn adran 7.2 yn rhoi sylw i'r pryderon ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch ac yn amlygu gwelliannau a wnaed i lwybrau cerdded i'r ysgol. Roedd y materion hyn wedi eu lleisio yn y cyfarfodydd ymgynghori ond ni ddeliwyd yn llawn â materion traffig oherwydd nad oedd yr adroddiad ar gael ar y pryd. Bydd adran ar faterion traffig ar ddiwrnod gwlyb yn cael ei gynnwys pan fydd wedi ei gwblhau.
- Pa mor ddigonol a thrwyadl oedd y broses ymgynghori a'r graddau yr ymgysylltwyd â'r cymunedau dysgu a effeithir o ystyried mai dim ond 7 ymateb a gafwyd gan rieni yn Ysgol y Parc a dim ond un ymateb gan riant yn Ysgol Parch Thomas Ellis. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod yr adroddiad yn adran 1.9 yn cyfeirio at y cyfarfodydd ffurfiol a gynhaliwyd gyda'r staff, llywodraethwyr a rhieni yn y tair ysgol. Cyn hynny, roedd cyfarfodydd anffurfiol wedi eu cynnal ac roedd hynny felly yn mynd y tu hwnt i ofynion cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Roedd y broses yn ei chyfanrwydd wedi glynu at y cyfarwyddyd. Fodd bynnag, gellir bob amser ddysgu gwersi o gynnal ymgynghoriadau ac efallai yn yr achos hwn y gallai'r wers fod wedi bod yn fwy ymatebol a thrwy hynny yn sicrhau bod y broses ymgynghori yn ychwanegu gwerth.
- Absenoldeb unrhyw gofrestr risg yn gysylltiedig â'r prosiect fel oedd wedi ei nodi gan Estyn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod y cynnig wedi derbyn asesiad risg ac y byddai trafodaeth yn dilyn o amgylch y risgiau hynny.
- Pa mor ddigonol oedd llecynnau awyr agored a meysydd chwarae ar safle'r ysgol newydd arfaethedig. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes at y cynllun yn Atodiad 11 yr adroddiad oedd yn nodi bod dwy ardal chwaraeon aml-ddefnyddiwr ar gael i ddisgyblion ar y safle. Eglurodd bod y cynllun ar hyn o bryd ar ffurf amlinellol ac wrth iddo esblygu ymhellach bydd mwy o sylw'n cael ei roi i fater y meysydd chwarae.
- Rheoli ysgol gynradd o'r maint hwn a diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn arbennig ei defnydd ar iard yr ysgol o ystyried y bydd yn ysgol eithaf mawr mewn ardal drefol. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol oes at adran 7.7 yr adroddiad oedd yn nodi'r safonau dylunio y

mae'n rhaid i bob ysgol gynradd newydd eu bodloni.  At hyn, roedd sylw wedi ei roi i ddwysedd poblogaeth yn yr ysgol newydd arfaethedig o ran y lle oedd ar gael i bob disgybl y tu allan i'r adeilad.  O safbwynt yr iaith Gymraeg, byddai'r Polisi Iaith yn berthnasol i unrhyw gynnig.  Ymhellach i hyn, mae'r Awdurdod yn rhoi pwyslais cynyddol ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

- Y gostyngiad o ran costau amcangyfrifiedig yr ysgol newydd ac a oedd hynny wedi cyfaddawdu pethau o ran ansawdd.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes mai cynllun amlinellol oedd y cynllun gwreiddiol ac wrth i'r cynllun symud yn ei flaen, roedd swyddogion wedi dod yn gynyddol ymwybodol o "adeilad safonedig" ac roedd hynny wedi dod a'r costau amcangyfrifiedig i lawr ond nid ar draul ansawdd.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar Bennaeth Ysgol  Llywelyn, Sir Ddinbych yn siarad am ei phrofiadau hi fel pennaeth ysgol gynradd fawr.  Pwysleisiodd ei bod yn bwysig cael rheolaeth briodol yn ei lle a systemau cyfathrebu a bod angen rheoli gwagle yn effeithiol.  Cyfeiriodd at y trefniadau oedd mewn grym i reoli disgyblion fynd i mewn i'r ysgol ar ddechrau'r diwrnod ysgol a phan oeddent yn mynd oddi yno ar ddiwedd y dydd.  Dywedodd y gall ysgol fawr yn aml gynnig mwy o arbenigedd a chyfleon cyfoethogiad i ddisgyblion.  Yr oedd yn gwneud yn sicr ei bod yn weladwy i ddisgyblion fel ei bod hi yn eu hadnabod hwy a hwythau yn ei hadnabod hi.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes a Dafydd Thomas i roi eu safbwyntiau i'r Pwyllgor fel Aelodau Lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones at bryderon penodol fel a ganlyn:

- Yr ymateb a gafwyd gan Estyn yn arbennig y ffaith nad oedd yr Awdurdod wedi nodi'r risgiau priodol yn gysylltiedig â'r cynnig.
- Ffyrdd a rhwyddineb mynediad i'r ysgol newydd i deuluoedd yn yr ardal oddi amgylch – awgrymwyd y gallai'r rhieni dreialu hyn er mwyn amlygu unrhyw broblemau posibl, yn arbennig ym misoedd y gaeaf.
- Y risg y gallai rhieni ddewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol newydd a thrwy hynny greu llefydd gwag yn yr ysgol newydd.
- Cyfleusterau yn yr ysgol yn cynnwys y ddarpariaeth o ddodrefn newydd.
- Capasiti'r Pennaeth i ymgymryd â'r her o ysgol newydd o'r maint hwn.
- Effaith y cynigion ar grwpiau bregus yn cynnwys plant AAA.
- Yr angen am fwy o fanylder mewn perthynas â'r cynigion a sicrwydd bod y gyllideb yn ei lle i dalu amdanynt.
- Cynllunio ar gyfer integreiddio plant i'r ysgol newydd.
- Materion traffig a chyfleusterau llwybrau troed.
- Teithio cynaliadwy.
- Yr angen i gael Cynllun Busnes ar gyfer yr ysgol newydd i egluro'r costau
- Delio ag adeiladau gwag o amgylch safle'r ysgol newydd.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i'r materion a godwyd.

*Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn eistedd am dair awr, ac yn unol â gofynion para. 4.1.10 y Cyfansoddiad gofynnodd i'r Aelodau oedd yn bresennol a oeddent yn dymuno i'r cyfarfod barhau.  Pleidleisiodd yr aelodau oedd yn bresennol i'r cyfarfod barhau.*

**Yn dilyn rhoi ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth ysgrifenedig  a llafar a gyflwynwyd, penderfynwyd cefnogi'r cynigion o fewn yr adroddiad ac i argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo uniad tair ysgol (Ysgol Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc) mewn adeilad ysgol newydd ar safle Cybi a bod i'r ysgol newydd y statws o Ysgol Eglwys yng Nghymru dan Reolaeth Gwirfoddol.**

*(Pleidleisiodd y Cynghorwyd R. Llewelyn Jones yn erbyn y cynigion; ataliodd y Cynghorydd Ann Griffith ei phleidlais ac nid oedd y Cynghorydd Peter Rogers yn bresennol pan ymgymerwyd y bleidlais).*

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 10 ADOLYGU'R BROSES O GAU PARC SGLEFRIO, LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor a'r Rheolwr Sgriwtini yn nodi'r prif faterion oedd yn codi o adolygiad y Pwyllgor o'r broses o gau Parc Sglefrio, Llangefni er cymeradwyaeth yr Aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac i geisio caniatâd y Prif Weithredwr / Arweinydd i'r mater gael ei ystyried fel mater brys yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2014.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL (GALW I MEWN)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Raymond Jones, R. Llewelyn Jones |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Uwch Gyfreithiwr (RH) (ar ran y Swyddog Monitro)<br>Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol (DE)<br>Rheolwr Trawsnewid Asedau (CS)<br>Swyddog Prosiect (GBH)<br>Rheolwr Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Peter Rogers, Cynghorydd Vaughan Hughes (Llofnodwr y Galw i mewn) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorwyr Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts (llofnodwyr y cais Galw i mewn), Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor), Cynghorydd Alwyn Rowlands (Deilydd Portffolio Trawsnewid Corfforaethol), Cynghorydd Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Cynghorydd Jeff Evans. |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod arbennig hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol oedd wedi ei alw i ddelio â mater galw i mewn. Eglurodd mai'r Cynghorydd R.G. Parry, OBE fyddai'n arwain ar y galw i mewn oherwydd na allai ef, fel Cadeirydd y Pwyllgor, wneud y ddwy ddyletswydd. Roedd y busnes dan sylw yn golygu cwestiynu penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ac er mwyn gwneud hynny roedd 5 Aelod nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith wedi arwyddo cais galw i mewn ac wedi darparu rhesymau dros herio'r penderfyniad. Y Cynghorydd R.G. Parry, OBE fyddai yn arwain ar yr agwedd honno. Byddai'r aelodau oedd wedi llofnodi'r cais i alw i mewn oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor yn cael cyfle i wneud cyfraniad a byddai Arweinydd y Cyngor a'r Deilydd Portffolio Trawsnewid Corfforaethol yn cael eu gwahodd i ymateb. Wedi hynny, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd i ofyn cwestiynau i unrhyw un o'r partïon. Bydd Arweinydd y Cyngor a'r Deilydd Portffolio Trawsnewid Corfforaethol yn yr un modd yn gallu gofyn am fewnbwn gan y Swyddogion. Roedd tri llwybr ar gael i'r Pwyllgor Sgriwtini wrth benderfynu'r mater hwn sef cytuno gyda phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith; anghytuno a chyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith i'w ailystyried naill ai'n rhannol neu yn gyfan gwbl, neu gyfeirio'r mater i'r Cyngor i'w ystyried ymhellach.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Rhoddwyd ystyriaeth i fabwysiadu'r canlynol:

Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

Cyn cymryd pleidlais ar y mater hwn o gau allan y wasg a’r cyhoedd, dywedodd y Cadeirydd nad oedd ef yn bersonol wedi bod yn hapus i dderbyn y ddarpariaeth ar gyfer cau allan y wasg a'r cyhoedd. Roedd hwn yn un o'r achosion hynny lle yr oedd yn teimlo y dylai'r mater o gau allan y wasg a’r cyhoedd a’i peidio gael ei drafod cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud. Eglurodd ei fod wedi cael trafodaeth fer gyda'r Uwch Gyfreithiwr ac roedd wedi gofyn i’r Swyddog egluro’r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â sut y mae angen i’r Pwyllgor ddelio â'r mater hwn. Mae’r Prawf Budd y Cyhoedd yn nodi dau reswm pam ei fod yn cael ei argymell bod y diddordeb i’r cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn gorbwyso’r diddordeb cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth, sef -

- Bod gwybodaeth yn ymwneud â materion sensitif ynglŷn ag arian a busnes yr Awdurdod yn mynd i gael ei drafod.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai’n golygu y byddid yn ymgynghori neu’n negodi gyda staff yr Awdurdod ac y gallent gael eu hadnabod yn anuniongyrchol pe cai’r adroddiad ei drafod yn y parth cyhoeddus.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn arbennig o anhapus gyda'r ail reswm oherwydd ei bod yn amlwg bod trafodaethau wedi eu cynnal ac yn parhau ynglŷn â chwtogi niferoedd staff. Mae'n wybodaeth gyffredinol bod bwriad i dorri yn ôl ar swyddi e.e. mae gwahoddiad wedi mynd allan i staff sy’n dymuno cael eu hystyried ar gyfer diswyddo gwirfoddol. Felly roedd yn credu bod sail dros amau a yw hwn yn rheswm dros gau allan y wasg a’r cyhoedd. O safbwynt y rheswm cyntaf, roedd yn credu y byddai angen gofyn am resymau penodol pam fod hwn yn bodoli oherwydd ar y llaw arall, mae’n cael ei gydnabod bod y mater yn ymwneud ag arian cyhoeddus a bod diddordeb cyhoeddus mewn sicrhau tryloywder mewn perthynas â sut y caiff busnes y Cyngor ei drefnu a'r strwythur y mae'n ei fabwysiadu wrth gyflawni ei wasanaethau. Yn bersonol, roedd yn credu bod llawer iawn o bwysau’n cael ei roi i hyn, yn y ddadl arbennig hon.

Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod yn cynrychioli'r Swyddog Monitro oedd ag ymrwymiad arall. Roedd wedi rhoi cyngor ar y mater i'r Pwyllgor Gwaith a hefyd wedi rhoi cyngor ysgrifenedig i'r Cynghorydd R G Parry, OBE mewn perthynas â'r Pwyllgor Sgriwtini. Cyngor y Swyddog Monitro oedd eithrio'r mater rhag cael ei drafod yn gyhoeddus am ddau reswm, yn gyntaf oherwydd ei fod yn ymwneud â gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes ac yn ail mae'n ymwneud â gwybodaeth yn ymwneud ag ymgynghoriadau all godi yng nghyswllt materion cyflogaeth rhwng yr Awdurdod a'i weithwyr. O safbwynt yr ail, roedd y Swyddog Monitro yn nodi’n benodol bod y drafodaeth yn ymwneud yn bennaf â rhai swyddi penodol o fewn y dogfennau a gyflwynwyd. Yn dilyn ystyried a oedd unrhyw sail dros eithrio, roedd y Swyddog Monitro wedi cynnal Prawf Diddordeb Cyhoeddus h.y. prun a fyddai datgelu a’i peidio er diddordeb y cyhoedd. Cyn belled ag yr oedd busnes a materion ariannol yr Awdurdod yn y cwestiwn, roedd yn gwneud y pwynt ar un llaw bod gan y cyhoedd ddiddordeb a hawl i wybod sut y mae’r Awdurdod yn gwario arian cyhoeddus ac ar y llaw arall roedd yn rhoi cyngor bod busnes a materion ariannol y Cyngor yn golygu trafod gwybodaeth sensitif a bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai’n arwain at ymgynghori gyda staff yr Awdurdod ac y gallent gael eu hadnabod yn anuniongyrchol, yn benodol y categori o weithwyr allai gael eu heffeithio. Dyna oedd cyngor y Swyddog Monitro. Roedd y mater wedi ei eithrio mewn trafodaethau hyd yn hyn ac fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, mae gan bob pwyllgor yr awdurdod i benderfynu drwy bleidlais y mwyafrif a ydyw’n cytuno i eithrio'r mater a’i peidio.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw Aelod o’r Pwyllgor gwestiwn neu sylw neu gynnig i’w wneud.

Ceisiodd y Cynghorydd Ann Griffith gael cadarnhad bod y bleidlais yn gorwedd gyda’r Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai dyna oedd yr achos. O ystyried hynny, dywedodd y Cynghorydd Ann Griffith ei bod yn credu y dylai’r Pwyllgor bleidleisio ar y mater a chynigiodd na ddylai’r wasg a’r cyhoedd gael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar y mater galw i mewn fyddai’n dilyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies.

**Penderfynwyd peidio a gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais galw i mewn.**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn agored i'r wasg a'r cyhoedd.

DRAFT

Dywedodd y Cadeirydd wedyn wrth y Pwyllgor bod y Rheolwr Sgriwtini wedi crybwyll wrtho nad oedd y cyfarfod wedi cael ei hysbysebu fel cyfarfod cyhoeddus, ac y dylai'r Pwyllgor ohirio'r drafodaeth fel y gallai'r cyfarfod gael ei hysbysebu fel cyfarfod cyhoeddus, neu fe allai'r Pwyllgor ganlyn ymlaen gyda'r cyfarfod heddiw a datgan ei ganfyddiadau yn gyhoeddus.

Fel Arweinydd yr Wrthblaid, dywedodd y Cynghorydd R.G. Parry, OBE ei fod yn credu ei bod yn deg bod y wasg a'r cyhoedd yn cael cyfle i fod yn bresennol ar gyfer y drafodaeth, a bod hynny'n bwysig er budd tryloywder a bod yn hollol agored.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn dymuno canlyn ymlaen, neu a oedd yn dymuno ail-drefnu'r cyfarfod fel y gellid ei gynnal yn gyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies ei fod yn credu bod angen bod yn dryloyw er lles y cyhoedd, a bod yn rhaid i'r cyfarfod fod yn agored iddynt. Cynigiodd felly y dylid cynnal cyfarfod arall. Eiliwyd y cynnig.

Rhoddodd y Cadeirydd y cynnig i ohirio'r cyfarfod ac i'w ail-drefnu fel cyfarfod cyhoeddus i bleidlais.

**Penderfynwyd gohirio'r cyfarfod a'i ail-drefnu fel cyfarfod cyhoeddus.**

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **SGRIWTINI CORFFORAETHOL / PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 TACHWEDD 2014 / 1 RHAGFYR 2014** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2014/15)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **BETHAN JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi y rhain fel a ganlyn –

*1.1.1 Rheoli Salwch – ymwreiddio prosesau rheoli ac arferion da ymhellach o safbwynt dysgu oddi wrth y naill a'r llall yn ystod 2014/15 er mwyn gwella ymhellach ein costau cyfraddau salwch a'n rheolaeth fel Awdurdod.*

*1.1.2 Ailymweld â'r fethodoleg a'r cyfnod amser ar gyfer cynnal adolygiadau datblygiad proffesiynol ac aleinio hynny gyda'r fframwaith gynllunio corfforaethol er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn ymgymryd â'r dyletswydd i werthuso staff mewn dull amserol a chyson.*

*1.1.3 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â meysydd gwaith sy'n tanberfformio ac a allent pe caent eu diystyru ddod yn broblemus o ran rheolaeth dydd i ddydd rheolaeth y Cyngor – bydd yr angen i bwyso ymlaen ac egluro cyfeiriad o safbwynt trawsnewid ein darpariaeth hamdden yn flaenoriaeth.*

*1.1.4 Gofynnir i ddangosyddion sy'n gysylltiedig a'r 'delayed transfer of care' gael ei gysidro i'w ymgorffori yn y sgorfwrdd o ganlyniad i'w bwysigrwydd sy'n datblygu'n rhanbarthol.*

*1.1.5 Rheolaeth Ariannol – cynnydd yn y monitro a wneir o sefyllfa rheolaeth ariannol yr Awdurdod dros y misoedd i ddod.*

*1.1.6 Gofynnir i ymchwiliad pellach gael ei wneud ar y niferoedd o staff sy'n Weithwyr Llawn Amser i alluogi cynnydd yn ein dealltwriaeth o staffio a'r goblygiadau adnoddol sy'n dilyn.*

| |
|---|
| 1.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn y mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig ag unrhyw faes o bryder a amlinellwyd uchod gan gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel y gellir sicrhau gwelliannau parhaol yn ystod y trydydd chwarter. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b/ |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Nid yw'r mater hwn yn un sydd wedi'i gofnodi ar gyfer y Cyngor Llawn o dan ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 (s.101) ac nid ydyw chwaith wedi'i ddirprwyo i swyddiog dan adran 13(2) o ddeddf Llywodraeth Leol 2000. O ganlyniad ac yn sgil yr uchod, mae'n fater i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Gofwynnwyd am ddau fesur lliniaru pellach sy'n cael eu amlygu yn 1.1.4 & 1.1.6 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio – Chwarter 2, 2014/15 a Cherdyn Sgorio |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2014/15 – Chwarter 1 (fel a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 8 Medi 2014). |

**ATODIAD A**

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2014/15)**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o nodau'r Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r dulliau ar gyfer cael tystiolaeth o welliant parhaus a'i gyflwyno ar draws y Cyngor. I'r perwyl hwnnw, drafftiwyd adroddiad ar berfformiad a'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref ac roedd yn dangos y cynnydd blynyddol yn erbyn yr amcanion a gyflawnwyd ym mlwyddyn 13/14.

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i hysbysu a dwyn sylw arweinwyr y Cyngor at y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion er mwyn dangos yn glir fod gwaith dydd i ddydd y Cyngor yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac i gynorthwyo i sefydlu sylfaen dystiolaeth i'w defnyddio fel sail ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

## 2. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL

**2.1** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio, gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol o fewn y Cyngor. Mae'r dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni wedi eu penderfynu yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori gyda Phenaethiaid, yr Uwch Dim Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.2** O ganlyniad, yn achos rhai dangosyddion bydd angen mwy o amser i'r prosesau adrodd wreiddio'n llawn cyn y gellir adrodd arnynt. Rhagwelir y bydd y prosesau hyn wedi'r ymwreiddio mehllach yn y cyfnod wedi gwerthusiad Chwarter 2.

**2.2** Mae'r cerdyn sgorio cyfredol (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ac fe gaiff sylw gan y Pwyllgor Gwaith ar 1af o Ragfyr, 2014.

## 3. YSTYRIAETHAU

**3.1** Hon yw'r ail flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformio mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn dechrau gweld patrymau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hyn.

**3.2** Mae'n bwysig nodi fod cais wedi ei wneud am i'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni gynnwys dadansoddiad pellach o'r patrymau, trem yn ôl dros berfformiad y llynedd a chydnabyddiaeth o ddangosyddion penodol mewn perthynas â chwartelau sy'n helpu'r dadansoddiad chwarterol ac yn galluogi i ni ystyried y perfformiad gan ddefnyddio nifer o wahanol elfennau o gymharu.


### 3.3 RHEOLI POBL

**3.3.1** Mewn perthynas â Rheoli Pobl, mae'n galonogol nodi bod ein cyfraddau salwch Ch2 (*dangosydd 1 ar gerdyn sgorio o dan reolaeth pobl*) wedi parhau gyda'i welliant ar sefyllfa'r flwyddyn flaenorol, sef 12.38 diwrnod fesul FTE yn y flwyddyn.

**3.3.2** Mae'r gwelliant hwn wedi parhau ar ddiwedd Chwarter 1 sy'n dangos y collwyd **2.78** o ddyddiau yn ystod y chwarter oherwydd salwch am bob Gweithiwr Llawn Amser (gweler Tabl (i)). Er bod hyn ychydig yn uwch na'r targed corfforaethol o 2.5 o ddyddiau, mae'n welliant sylweddol o gymharu â ffigyrau'r chwarter cyntaf y llynedd a oedd yn dangos bod **3.4** o ddyddiau wedi eu colli ar draws y Cyngor bryd hynny. Mae cyfraddau salwch Ch2 o gymharu â Ch1 yn ystod 14/15 hefyd yn dangos gwelliant cyffredinol sy'n cael ei weld gan raddfa Ch1 o 2.78 yn erbyn cyfradd Ch2 o 2.34.

**3.3.3** Mae'r 2.34 dydd a gollwyd oherwydd salwch yn ystod Ch2 yn cyfateb i'r hyn a ddigwyddodd yn ystod 13/14 (2.34 dydd yn ôl pob gweithiwr amser llawn) ac fe ellir ei ddefnyddio i helpu gyda'n rhagamcan o'r sefyllfa diwedd blwyddyn (gweler tabl (i) isod).

Tabl (i)




**3.3.4** O ystyried y data cymharu â amlinellir yn y tabl uchod (i), os bydd y Cyngor yn parhau i berfformio yn unol â'r patrymau salwch a welwyd yn 13/14 rhagwelir y bydd ein cyfraddau ar ddiwedd y flwyddyn yn oddeutu **10.38** o ddyddiau am bob Gweithiwr Llawn Amser a fydd eto yn welliant sylweddol ar ffigyrau 13/14.

**3.3.5** Tra bo hwn yn gam i'r cyfeiriad iawn byddai, fodd bynnag, yn dal i ddangos perfformiad gwael iawn o gymharu â gweddill yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru lle rhagwelir y byddai ein perfformiad yn cael ei leoli yn y canolrif isaf / chwartel isaf.


**3.3.6** Mae cyfraddau salwch y flwyddyn hon wedi eu nodi fel dangosydd o arwyddocâd cenedlaethol ac maent wedi'u categoreiddio fel Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd ei berfformiad yn cael ei ddefnyddio fel data cymharu fydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu stori ar gyfer salwch ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer 14/15.

**3.3.7** Mae sut y rheolir salwch hefyd yn gysylltiedig â'r cyfraddau salwch. Rhan annatod o'r broses yn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff gyda'r polisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith (*dangosydd 5 ar y cerdyn sgorio*).

**3.3.8** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r arferion gweithio hyn ar draws ei wasanaethau a gellir dweud yn bendant bod cyflogi cydlynydd salwch pwrpasol wedi arwain at welliant yn y ffigyrau corfforaethol ers y llynedd. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach yn ystod y chwarter cyntaf, gyda

nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn codi o 59% ar ddiwedd (13/14) ffigwr cronnol o 81% a gafwyd yn dilyn perfformiad Ch2 o 82% fel y dangosir yn Nhabl (ii) isod.

Tabl (ii)




**3.3.9** Mewn perthynas â ffigyrau absenoldeb salwch - rhoddwyd targed gwahanol i bob gwasanaeth yn seiliedig ar ddata hanesyddol / patrymau o ran absenoldebau salwch. Mae'r targedau hyn wedi eu cyfrifo mewn ffordd sy'n gwneud y targedau'n fwy cyraeddadwy ac yn fwy ystyrlon felly i'r gwasanaethau. Os llwyddir i gwrdd â'r targedau bydd y Cyngor yn cwrdd â'i darged o 10 diwrnod am bob Gweithiwr Llawn Amser.

**3.3.10** Fodd bynnag, hyd yn hyn, y gwasanaethau sy'n tanberfformio yn erbyn targedau gwasanaeth yw'r Gwasanaethau Plant, Amgylchedd a Thechnegol a Rheoleiddio a byddir yn gwneud gwaith monitro pellach ar y gwasanaethau hyn yn ystod Ch3. Mae'r tanberfformiad yn erbyn targedau ar gyfer y gwasanaethau hyn yn ystod Ch2 yn ganlyniad i enghreifftiau uchel o salwch tymor hir.

**3.3.11** Er bod y Cyngor yn llwyddo i berfformio'n well yn erbyn ei darged salwch bob blwyddyn nodir fod cost dybiannol salwch ar gyfer Chwarter 2 yn uwch na £500k.

**3.3.12** Yn yr un modd, cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith lle mae angen gwelliannau o ddata Ch2 yn erbyn y targed corfforaethol o 80% yw -

Oedolion (69%)
Gwasanaethau Plant (70%)
Trawsnewid (75%)
Adfywio Economaidd a Chymunedol (76%)

**3.3.13** Gwelwyd gwelliannau o Ch1 yn Plant (59%) ac Adfywio Economaidd a Chymunedol (63%) a rhagwelir y bydd gwelliannau fel hyn yn parhau.

**3.3.14** Un patrwm sy'n achosi pryder sydd i'w weld o'r data a gasglwyd ar gyfer Ch2 yw'r % o staff a dderbyniodd adolygiad datblygiad proffesiynol o fewn y cyfnod amser (dangosydd 9 o dan Rheoli Pobl). Mae data Ch2 sy'n adelwyrchu data blynyddol yn dangos perfformiad o 53% yn unig o'r holl staff yn yr Awdurdod a gafodd adolygiad. Cyfrifwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio

sampl o ddim ond 10% o staff ac felly mae angen bod yn wyliadwrus wrth ystyried y goblygiadau.

**3.3.15** Fodd bynnag, gan gofio bod y fethodoleg ar gyfrifo yn gyson o 13/14 i 14/15, mewn termau ffigwr, mae hyn yn golygu bod tua 1,240 aelod staff na chawsant eu gwerthuso. Mae hyn yn dangyflawniad yn erbyn targed ac yn dangos perfformiad sy'n gwaethygu o'r flwyddyn flaenorol lle y cafodd 64% o staff adolygiadau o'r fath.

**3.3.16** Y gwasanaethau hynny sydd yn perfformio ar lefel sydd yn is na'r flwyddyn flaenorol yw fel y ganlyn –

**3.3.16.1** Priffyrdd a Rheolaeth Gwastraff
**3.3.16.2** Oedolion
**3.3.16.3** Plant
**3.3.16.4** Adnoddau
**3.3.16.5** Trawsnewid
**3.3.16.6** Economaidd & Adfywio Cymunedol

**3.3.17** Ar amser o gyfyngiadau ariannol cynyddol lle bo aleinio gwaith unigolion gyda blaenoriaethau corfforaethol yn rhan hanfodol o ymgysylltiad â pherchnogaeth staff dros nodau ac amcanion y Cyngor, mae'r ffigwr hwn yn dangos patrwm pryderus sydd yn gofyn i reolwyr ail ymweld â'r fethodoleg a ffrâm amser o gynnal adolygiadau datblygiad personol ac i geisio ei aleinio i'r fframwaith gynllunio gorfforaethol.

**3.3.18** Wrth i brosesau ddatblygu rhagwelir y bydd y rownd bresennol o adolygiadau Datblygu Perfformiad Personol (14/15) gael ei dystiolaethu a'i logio ar y system Adnoddau Dynol newydd fydd yn rhoi tystiolaeth bellach ac yn ymwreiddio'r broses a hefyd yn caniatáu i ni gael pictiwr cynhwysfawr o stad flynyddol pethau o safbwynt cyflawni Adolygiadau Datblygiad Personol ar draws yr Awdurdod.

**3.3.19** Fel y nodwyd yn Chwarter 1 (14/15) a chan gymryd i ystyriaeth y gwelliannau a wnaed yn ystod y chwarter diwethaf mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn cydnabod, er mwyn parhau â'r gwelliant cyffredinol hwn, bod angen –

**3.3.19.1** ymwreiddio prosesau ac arferion rheoli da o safbwynt y dysgu trwy ddysgu gwersi yn ystod 2014/15 er mwyn gwella ein cyfraddau salwch, costau a rheolaeth fel Awdurdod.

**3.3.19.2** Ailymweld â'r fethodoleg a'r ffrâm amser yng nghyswllt cynnal adolygiadau datblygiad proffesiynol a'i alinio gyda'r fframwaith gynllunio corfforaethol a thrwy hynny sicrhau bod rheolwyr yn ymgymryd â'u dyletswydd i werthuso staff mewn dull amserol a chyson. Rhagwelir hefyd y bydd adolygiadau yn cael eu dogfennu a'u tystiolaethu drwy'r system AD a bod ffocws o safbwynt llithriad a'r defnydd cyfredol o'r system adolygu yn cael ei gofnodi yn y cyfarfod Penaethiaid ym mis Tachwedd.

**3.3.19.3** Ymchwiliad pellach i niferoedd y gweithwyr hynny sydd yn weithwyr llawn amser i gynyddu dealltwriaeth o'r niferoedd a'r goblygiadau adnoddol ar draws y gorfforaeth.

## 3.4 RHEOLAETH ARIANNOL

**3.4.1** Hwn yw'r ail chwarter ers cyflwyno'r cerdyn sgorio lle casglwyd ac adroddwyd ar wybodaeth ariannol. Cydnabyddir nad yw'r adroddiad hwn ond yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa ar ddiwedd y Chwarter ac nad ydym wedi adrodd ar bob dangosydd. Gellir cael mwy o wybodaeth o'r adroddiad monitro ariannol ar gyfer Chwarter 2 a ddosbarthwyd eisoes i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd.

**3.4.2** Fodd bynnag, yn seiliedig ar wybodaeth yr adroddwyd arni, gellir nodi bod gwahaniaeth sylweddol o gymharu â'r proffil ar gyfer gwariant yn Chwarter 2. Y prif reswm ar y gorwariant o £546k oedd oherwydd defnyddio staff Asiantaeth o fewn y cyfnod. Fodd bynnag, mae nifer y staff asiantaeth yn gostwng ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cwblhau eu contractau ar 31 Hydref 2014. Yn ogystal, hysbysebwyd ar gyfer Swyddog Adran 151 yn ddiweddar.

**3.4.3** Yn ogystal, nodir bod gan yr Adran Addysg (addysg ganolog) danwariant sylweddol ar ddiwedd Chwarter 2. Roedd hynny i'w briodoli'n bennaf i danwariant ar wersi yn y cartref, prydau ysgolion cynradd, a chostau allsirol. Rhagwelir y bydd y tanwarianau hyn ar ddiwedd Chwarter 2 yn cael eu gwrthbwyso gan gostau sy'n ymwneud â gwasanaethau ymgynghoriaeth a ddarperir gan Cynnal. O ganlyniad, rhagwelir gorwariant o £130k yn yr adran ar gyfer 2014/15.

**3.4.4** Roedd tanwariant o £581k ar gyfer gofal cymdeithasol am hanner cyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd yn cynyddu i £644k ar gyfer y flwyddyn gyfan. Y prif feysydd lle rhagwelir tanwariant yw Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed a'r Uned Ddarparu oherwydd arbedion ar gostau gweithwyr, denu mwy o incwm na'r disgwyl a llai o gostau o ran gwaith cynnal a thrwsio.

**3.4.5** Mae'r Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed yn faes cyfnewidiol ac mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud i wella'r rhagamcanion mewn perthynas â phob grŵp cleient ac i ail-alinio'r cyllidebau rhwng Gofal Preswyl a Gofal Cartref i gyd-fynd â'r galw. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gwblhau a dylai'r darlun fod yn fwy cyson i'r dyfodol.

**3.4.6** Nodir yr yn adroddiad hwn hefyd bod gwahaniaethau sylweddol o ran yr incwm a gafwyd o gymharu â'r targedau ar draws yr Awdurdod. Mae hynny oherwydd bod angen ailbroffilio targedau incwm o fewn y system rheolaeth ariannol er mwyn cael gwared ar unrhyw anghysondebau chwarterol a all gael eu cofnodi. Bwriedir gwneud y gwaith hwn yn Chwarteri 3 a 4.

**3.4.7** Adroddwyd esioes ar gost dybiannol salwch ar ddiwedd Chwarter 2. Oherwydd bod cyfraddau absenoldeb yn disgyn, rhagwelir y bydd costau salwch (tybiannol) yn gostwng yn y flwyddyn ariannol gyfredol o gymharu â ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf (dros £2m).

**3.4.8** Er bod rhai meysydd yn parhau i achosi pryder i'r Uwch Dim Arweinyddiaeth, caiff y sefyllfa ariannol ei sgriwtineiddio yn fwy rheolaidd dros fisoedd yr hydref gyda golwg ar adnabod patrymau sy'n achosi pryder a phryderon gwirioneddol eraill fel bod modd cymryd camau lliniarol cyn gynted ag y bo modd wedyn.


## 3.5 RHEOLI PERFFORMIAD

**3.5.1** Mewn perthynas â rheoli perfformiad, mae un dangosydd o fewn y Gwasanaethau Oedolion yn dangos tanberfformiad -

**3.5.1.1** (i) *03 - SCA/018b - y % o ofalwyr ar gyfer Oedolion y cynhaliwyd adolygiad/asesiad o'u hangenion. Mae'r dangosydd hwn yn dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio*. Er bod y dangosydd hwn yn goch ar ddiwedd Chwarter 2 mae'r arwyddion cynnar o welliant a noddwyd yn adroddiad Chwarter 1 wedi eu gwireddu. Er bod canlyniad Chwarter 2, sef 58.3%, yn parhau i fod yn isel o gymharu â'r targed mae wedi gwella'n sylweddol o'r chwarter blaenorol, sef 36.8% (gweler Tabl (ii) isod).

O'r 209 o gleientiaid sydd heb eu hasesu hyd yma, mae 100 (48%) wedi gwrthod yr asesiad ac mae 109 (52%) yn disgwyl cael eu hasesu neu eu hadolygu. Y cyfartaledd trwy Gymru ar gyfer 12/13 oedd 38.7% (nid yw'r ffigyrau ar gyfer 13/14 wedi eu rhyddhau) a rhagwelir y byddai perfformio'n agos i'n targed yn rhoi Ynys Môn yn y chwartel uchaf trwy'r wlad.

Tabl (ii)




**3.5.1.2** Dangosydd sy'n ymddangos yn Wyrdd ar y cerdyn sgorio ac y rhagwelir y bydd yn gwella bob blwyddyn yw *05 - SCA/019 - y % o gyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle mae risg wedi ei rheoli.* Fodd bynnag, mae'n briodol dwyn sylw'r Pwyllgor at y ffaith y bydd perfformiad yn parhau i fod yn y chwartel isaf o gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru - er y gall y wella flwyddyn ar ôl blwyddyn - oni bai ei fod yn gwella nes cyrraedd y nod o 92.5% a fyddai'n ei roi yn y chwartel canolrifol isaf (yn seiliedig ar berfformiadau'r gorffennol).

**3.5.2** Mae'r cerdyn sgorio hefyd yn dwyn sylw at berfformiad y dangosyddion yn y maes Plant –

**3.5.2.1** (i) *12 - SCC/043a – y % o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd cyn pen 35 diwrnod gwaith* – wedi gwella'n sylweddol ers Chwarter 1 ac yn nesau at y targed a osodwyd gan y gwasanaeth ar ddechrau'r flwyddyn.

**3.5.2.2** (ii) *11 SCC/041a - y % o blant cymwys sydd hefo cynlluniau llwybrau* (Dangosydd Cenedlaethol gan Llyowdraeth Cymru a ddefnyddir i bwrpas cymharu) - mae'n perffomio'n îs na'r targed ac yn dangos yn AMBR ar gyfer Chwarter 2 ar gyfradd o 82.76%. Mae perfformiad hefyd wedi dirywio ers Chwarter 1. Ar ôl dweud hyn, mae'n perfformio'n well ar hyn o bryd nag yn y flwyddyn flaenorol ond mae angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod angen i'r perfformiad godi i dros 88% (yn seiliedig ar ffigyrau 13/14) er mwyn cyrraedd y chwartel canolrifol isaf.

**3.5.3** Gellir gweld tystiolaeth o well perfformiad a rhagori ar y targed yn dangosydd 19 *(LCS/002b - ymweliadau i ganolfannau hamdden a chwaraeon yr awdurdod lleol).* Ar adeg o gyfyngiadau

ariannol, ni all datblygiad o'r fath ond fod o fudd i'r gwasanaeth a'r Cyngor ac mae tystiolaeth bellach o'r gwelliant i'w gweld yn sefyllfa ariannol y gwasanaeth ar ddiwedd Chwarter 2.

**3.5.4** Y ddau ddangosydd arall sy'n dangos tanberfformiad ar ddiwedd Chwarter 2 yw –

**3.5.4.1** (i) *14 - HHA/017a:- Nifer y dyddiau y mae teuluoedd digartref ygyda phlant yn eu treulio mewn llety gwely a brecwast ar gyfartaledd*. Tanberfformiad o 52.7% o gymharu â tharged o 42% ond yn llawer gwell na'r canlyniadau o 90.8% yn 13/14.

**3.5.4.2** (ii) *37 - Prosiect Hamdden*:- mae angen i Swyddogion wneud rhagor o waith ymchwil cyn penderfynu ar ffordd strwythuredig ar gyfer y dyfodol i gwrdd â disgwyliadau'r gorfforaeth. Bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer Chwarter 3.

**3.5.4.3** Nid oedd data ar gyfer y dangosyddion isod ar gael ar gyfer Chwarter 2 –

*(i)* *16 – LCL/001b: Nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth*

*(ii)* *17 – LCL/004: Nifer y deunydd llyfrgell a roddwyd ar fenthyg yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth*

a gwneir pob ymdrech i gywiro'r sefyllfa hon i'w hystyried yn Chwarter 3.

**3.5.5** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni yn dwyn sylw at berfformiad ein gwasanaeth gwastraff o ran casglu gwastraff o aelwydydd ar draws yr Ynys a'i fod yn parhau i berfformio'n dda. Er cofnodi bod 108 o gasgliadau wedi eu methu yn ystod Chwarter 2 dygir i sylw'r Pwyllgor fod hyn allan o ffigwr oddeutu 2.2 miliwn o gasgliadau ledled yr Ynys sy'n cyfateb i gyfradd o oddeutu 0.005%.

**3.5.6** Mae dangosyddion rheoli perfformiad eraill o fewn terfynau goddefiant ac yn cael eu monitro'n rheolaidd gan ein trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol gydag eithriadau yn cael eu dwyn i sylw'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn rheolaidd.

## 3.6 GWASANAETH CWSMER

**3.6.1** O ran y maes hwn, gwelwyd gwelliant yn y sefyllfa gyda nifer y cwynion a dderbyniwyd yn llai na'r targed. Erbyn diwedd Chwarter 2 cafwyd 32 cwyn yn erbyn targed o 32. Fe gafodd 10 o'r cwynion hynny eu cadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r gweddill yn aflwyddiannus. Unwaith eto mae hyn yn ychydig yn well sefyllfa nag yn 13/14 lle cafwyd 65 o gwynion.

**3.6.2** Mae data Chwarter 1 ar gyfer rheoli cwynion yn dangos ein bod yn cydnabod ac yn ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni. Os bydd y patrwm hwn yn parhau rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor yn derbyn llawer llai o gwynion. Mae hynny'n dibynnu wrth gwrs ar sut y byddwn yn rheoli materion sy'n dod i'r wyneb a'n hymdrechion i ganolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17.

**3.6.3** O ran mabwysiadu dull o weithio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, un maes y mae swyddogion wedi cael anhawster i gwrdd â'r targed yw ymateb i geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen – 59% yn erbyn targed o 80%.

**3.6.4** Cafwyd 230 o geisiadau o'r fath yn ystod Chwarter 2 a 467 yn y flwyddyn galendr hyd yma. Roedd angen ymateb i 2357 o gwestiynau. Mae hynny'n dangos bod gan y maes hwn oblygiadau mawr o ran adnoddau os bydd y gyfradd hon yn parhau fel y mae neu'n codi eto ar draws y Cyngor.

**3.6.4.1** Gwneir y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn fel yr adroddwyd yn Chwarter 1 gan –

3.6.4.1.1 Y Cyfryngau
3.6.4.1.2 Ymgeiswyr Preifat
3.6.4.1.3 Cwmnïau preifat eraill

**3.6.4.2** Gellir cael gwybodaeth fanylach yn http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/data-protection-and-foi/council-access-to-information-statistics/

## 4. ARGYMHELLION

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

**4.1.1** Rheoli Salwch - parhau i wreiddio prosesau ac arferion rheoli da trwy ddysgu oddi wrth ein gilydd yn ystod 2014/15 er mwyn gwella ein cyfraddau salwch ymhellach a gostwng costau i'r Awdurdod.

**4.1.2** Ailystyried y fethodoleg a'r amserlen ar gyfer adolygiadau datblygiad proffesiynol i gyd-fynd gyda'r fframwaith cynllunio corfforaethol gan sicrhau bod rheolwyr yn ymgymryd â'u dyletswyddau i werthuso staff mewn dull amserol a chyson. Rhagwelir hefyd y bydd adolygiadau yn cael eu tystiolaethu trwy'r system AD ac y bydd y cyfarfod o'r Penaethiaid ym mis Tachwedd yn canolbwyntio ar roi sylw i unrhyw lithriad a'r defnydd a wneir o'r system adolygu ar hyn o bryd.

**4.1.3** Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â meysydd gwaith sy'n tanberfformio ac a fyddai yn creu anawsterau o ran darparu gwasanaethau pe baent yn cael eu hanwybyddu – bydd bwrw ymlaen ac egluro cyfeiriad mewn perthynas â thrawsnewid ein darpariaeth llyfrgelloedd a'n darpariaeth hamdden yn flaenoriaeth.

**4.1.4** Gofynnir i ddangosyddion sy'n gysylltiedig a'r 'delayed transfer of care' gael ei gysidro i'w ymgorffori yn y sgorfwrdd o ganlyniad i'w bwysigrwydd sy'n datblygu'n rhanbarthol.

**4.1.5** Rheolaeth Ariannol – Mwy o waith monitro misol i roi sylw i reolaeth ariannol yr Awdurdod dros y misoedd nesaf.

**4.1.6** Gofynnir i ymchwiliad pellach gael ei wneud ar y niferoedd o staff sy'n Weithwyr Llawn Amser i alluogi cynnydd yn ein dealltwriaeth o staffio a'r goblygiadau adnoddol sy'n dilyn.

**4.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniarol ar gyfer unrhyw feysydd sy'n achosi pryder fel yr amlinellir uchod fel bod modd eu cyfathrebu i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2014.

Corporate Scorecard C-Q2

| Customer Service | Actual | Target | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) No of Complaints received | 32 | 33 | Green | ↓ | 65 |
| 02) No of Complaints upheld | 10 | 8 | Amber | ↑ | 15 |
| 03) % of Complaints acknowledged within 5 working days | 100% | 100% | Green | → | - |
| 04) % of written responses within 20 days | 100% | 100% | Green | → | - |
| 05) Number of concerns | 27 | 46 | Green | ↓ | 92 |
| 06) Number of compliments | 260 | - | - | ↑ | - |
| 07) No. of Ombudsman referrals upheld | 0 | 1 | Green | → | - |
| 08) Mystery Shopper Scores 0-4 | - | - | - | - | - |
| 09) Mystery Shopper Scores 5-7 | - | - | - | - | - |
| 10) Mystery Shopper Scores 8-10 | - | - | - | - | - |
| 11) Average time taken to answer telephone (sec) | 9 | 15 | Green | → | - |
| 12) % of telephone calls abandoned | 14% | 15% | Green | ↓ | - |
| 13) % of correspondance acknoweldged to within 5 working days (mystery shopper) | - | - | - | - | - |
| 14) % of correspondance repied to within 15 working days (mystery shopper) | - | - | - | - | - |
| 15) % of FOI Requests Responded to Within Timescale | 59% | 80% | Red | ↑ | - |
| 16) Number of FOI Requests Responded to Within Timescale | 146 | - | - | ↑ | - |

| People Management | Actual | Target | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Sickness absence - average working days/shifts lost | 5.12 | 5 | Amber | ↑ | 12.38 |
| 02) No of staff with attendance of 100% (6 Months) | - | - | - | - | - |
| 03) Short Term sickness | 5519.77 | - | - | ↑ | - |
| 04) Long Term sickness | 6457.68 | - | - | ↑ | - |
| 05) % of RTW interview held | 81% | 80% | Green | ↑ | 59% |
| 06) % of stress related sickness | 6% | 9% | Green | ↑ | 10% |
| 07) No. of occupational health referrals | 182 | - | - | - | 362 |
| 08) No. or workplace injuries | 123 | 157 | Green | ↓ | 315 |
| 09) % of PDR's completed within timeframe | 53% | 80% | Red | ↓ | 64% |
| 10) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE) | 2341 | - | - | - | 2366 |
| 11) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE) | 1400 | - | - | - | 1395 |
| 12) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) (Annual) | - | - | - | - | 4.4% |
| 13) Local Authority employees made redundant (compulsory) | 26 | - | - | - | - |
| 14) No. of Agency Staff | 26 | - | - | ↓ | 18 |
| 15) No of grant funded posts | 122.5 | - | - | → | 128.75 |
| 16) % of staff with email facility (annual) | 54% | - | - | → | - |

| Financial Management | Spend (£) | Variance (%) | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Projected end of year position | 127,126,000 | 456,000 | Green | - | - |
| 02) Spend v Profile (Under spending) Education | 3,222,000 | -167,000 | Green | - | - |
| 03) Spend v Profile (Under spending) Social Services | 13,648,000 | -581,000 | Amber | - | - |
| 04) Spend v Profile (Over spending) Resources | 2,002,000 | 546,000 | Amber | - | - |
| 05) Achievement against efficiencies (over/under) Service 1 | - | - | - | - | - |
| 06) Achievement against efficiencies (over/under) Service 2 | - | - | - | - | - |
| 07) Achievement against efficiencies (over/under) Service 3 | - | - | - | - | - |
| 08) Income v Targets – (Overachieving) Adult Services | -202,053 | -7% | Green | ↓ | - |
| 09) Income v Targets – (Overachieving) Env & Tech | -394,044 | -27% | Green | ↓ | - |
| 10) Income v Targets – (Overachieving) Housing | 233,975 | -2% | Green | ↓ | - |
| 11) Aged debt analysis across all categories of debt | - | - | - | - | - |
| 12) Spend v Salary (£) | 12,785,508 | - | - | - | - |
| 13) Spend v Salary (% of budget) | - | - | - | - | - |
| 14) Cost of agency staff (£'000) | 536,034 | - | Green | ↓ | - |
| 15) Cost of sickness absence – direct & indirect (Notional cost) | 1,051,000 | - | Green | ↑ | - |
| 16) Grants Income – Welsh Government | - | - | - | - | - |
| 17) Grants Income - European | - | - | - | - | - |
| 18) Grants Income – Other | - | - | - | - | - |

| Performance Management | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Targe | 13/14 Result | 3/14 Quartil |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002a: The rate of older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31st March | 54.19 | 55 | Green | ↑ | 55 | 54.41 | Lower |
| 02) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 17.17 | 19 | Green | ↑ | 19 | 18.16 | Upper Median |
| 03) SCA/018b: The percentage of carers of adults who had an assessment or review of their needs in their own right during the year | 58.3 | 70 | Red | ↑ | 70 | 63.2 | Upper |
| 04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service | 97.9 | 75 | Green | ↑ | 75 | 73.9 | Upper Median |
| 05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 91.3 | 90 | Green | ↓ | 90 | 88.9 | Lower |
| 06) SCC/004: The percentage of children looked after on 31 March who have had three or more placements during the year | 1.32 | 8 | Green | ↓ | 8 | 7.79 | Upper Median |
| 07) SCC/011a: The % of initial assessments that were completed during the year where there is evidence that the child has been seen by the Social Worker | 94.76 | 100 | Green | ↓ | 100 | 91.63 | Upper |
| 08) SCC/042a: The % of initial assessments completed within 7 working days | 97.55 | 85 | Green | ↓ | 85 | 90.86 | Upper |
| 09) SCC/014: The % of initial child protection conferences due in the year which were held within 15 working days of the strategy | 96.49 | 100 | Green | ↑ | 100 | 92.66 | Lower Median |
| 10) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 94.65 | 100 | Green | ↓ | 100 | 90.54 | Upper Median |
| 11) SCC/041a: The percentage of eligible, relevant and former relevant children that have pathway plans as required | 82.76 | 100 | Amber | ↓ | 100 | 77.78 | Lower |
| 12) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days | 80.95 | 85 | Green | ↑ | 85 | 71.68 | Lower |
| 13) HHA/002 The average number of days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless | 224 | 600 | Green | ↑ | 600 | 531 | Lower |
| 14) HHA/017a The average number of days all homeless families with children spent in bed and breakfast. | 52.7 | 42 | Red | ↓ | 42 | 90.8 | Lower |
| 15) HHA/017b the average number of days that all homeless households spent in other forms of temporary accommodation | 219.5 | 650 | Green | ↑ | 650 | 621.6 | Lower |
| 16) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year, per 1,000 per population | - | - | - | - | 281k | 219k | Lower |
| 17) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year per 1,000 population | - | - | - | - | 310k | 309k | Lower Median |
| 18) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes | 54k | 48k | Green | ↑ | 102k | 97.5k | - |
| 19) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity, per 1,000 population | 298k | 277k | Green | ↑ | 620k | 614k | Upper Median |
| 27) THS/011c: The % of non-principal (C) roads that are in an overall poor condition | - | - | - | - | TBD | 17.6 | Lower |
| 28) Jobs Created | 23.5 | 16 | Green | ↓ | 25 | 41 | - |
| 30) The number of actual missed bin collections | 108 | 240 | Green | ↓ | 480 | 152 | - |
| 32) HLS/010c: Average number of days to complete routine void repair | 10 | 30 | Green | ↓ | 30 | 19.3 | - |
| 31) PLA/004c: The percentage of householder planning applications determined during the year within 8 weeks | 86 | 85 | Green | ↓ | 85 | - | - |
| 35) School Modernisation Programme | - | - | Green | ↑ | - | - | - |
| 36) Older Adult Social Care Programme | - | - | Green | ↑ | - | - | - |
| 37) Leisure Project | - | - | Red | → | - | - | - |
| 38) Library Project | - | - | Amber | ↑ | | - | - |
| 39) Adoption and compliance with a timetable for close of accounts and production of Statement of Accounts | Yes | Yes | Green | → | Yes | Yes | - |
| 22) No. of Permanent Exclusions | 0 | 0 | Green | - | 0 | 0 | - |
| 20) Attendance - Primary (%) | - | - | - | - | 94.5 | 94.6 | - |
| 21) Attendance - Secondary (%) | | | - | - | 93.3 | 93.4 | - |
| 23) No. of days lost to temp exclusion - Primary | - | - | - | - | - | 37.5 | - |
| 24) No. of days lost to temp exclusion - Secondary | - | - | - | - | - | 140.5 | - |
| 25) KS4 - % 15 year olds achieving L2+ | - | - | - | - | 56 | 53.4 | - |
| 26) KS4 - % 15 year olds achieving L1 | - | - | - | - | 96.2 | 96 | - |
| 29) No of new apprenticeships under 'Prentisiaeth Menai' | - | - | - | - | - | - | - |
| 33) % of repairs (BMU) completed first time | - | - | - | - | - | - | - |
| 34) Outcome Agreements | - | - | Amber | - | - | Green | - |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **3 TACHWEDD 2014** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB - AIL CHWARTER 2014/15 – CYFALAF** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Medi yn £3.8m (29.6% o'r gyllideb gyfan ar gyfer cynlluniau cyffredinol). Gwariwyd £2.5m ar gynlluniau tai (28% o'r gyllideb ar gyfer tai) hyd at fis Medi. 'Roedd y cyfanswm gwariant yn 29% o'r gyllideb gyfan, gan y bydd nifer o'r cynlluniau mawr yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn.
- Argymhellir y dylid nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Ym mis Chwefror 2014, gosododd y Cyngor gyllideb gyfalaf o £15.265m, heb gynnwys llithriad.
- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf blynyddol.

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim materion wedi codi |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim materion wedi codi |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E –** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** | |
|---|---|
| Atodiad A - | Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2014/15 |
| Atodiad B - | Cyllideb Gyfalaf 2014/15 - Crynodeb : Medi 2014 |
| Atodiad C - | Rhaglen Gyfalaf diwygiedig am 2014/15 gyda manylion am y Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd ac unrhyw gyllid allanol |

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2014/15 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 10 Chwefror 2014; ac
- Adroddiad monitro cyfalaf chwarter 1 2014/15 (fel y cyflwynwyd i, ac y derbyniwyd gan, y Pwyllgor hwn ar 8 Medi 2014)

## 1. CEFNDIR

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb am ail chwarter y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad B, fe geir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi.

## 2. CYNNYDD

**2.1** Roedd y gwariant hyd ddiwedd mis Medi yn £3.8m (6.1m yn 2013/14) ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 29.6% (36% yn 2013/14) o'r gyllideb gyfan ar gyfer cynlluniau cyffredinol. Y rhesymau am hynny yw mai dim ond megis dechrau mae rhai o'r prosiectau, megis y Rhaglen Gyfalaf i Ehangu Dechrau'n Deg. Yn yr achos hwn dim ond gwaith ar y cais cynllunio, gwaith ecolegol a gwasanaethau peirianneg sydd wedi dechrau. Bydd cynlluniau eraill hefyd yn gwario'r rhan fwyaf o'u cyllideb yn ddiweddarach yn y flwyddyn, fel y Cerbydau fflyd, ar sail proses dendro. Yn ystod yr ail chwarter, mae gwaith wedi ei wneud fel yr oedd disgwyl ar nifer o gynlluniau, yn cynnwys Isadeiledd Strategol ar gyfer Safleoedd ac Eiddo, lle mae 44% o'r gyllideb wedi ei gwario ac ar waith Adfywio Ffisegol (Cynllun 3 Tref), lle mae 54% o'r gyllideb wedi ei gwario. Yn ogystal, mae rhai cynlluniau newydd a gyllidir gyda grant wedi cychwyn eleni, gan gynnwys y Gronfa Gofal Canolraddol yn y maes Gofal Cymdeithasol Oedolion, ond effaith hyn yn gyffredinol oedd lefelau gweithgaredd is a llai o gynnydd gyda'r rhaglen o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

**2.2** Y gwariant hyd ddiwedd mis Medi ar gynlluniau tai oedd £2.5m (£1.3m yn 2013/14), sef 28% (18% yn 2013/14) o'r gyllideb gyfan ar gyfer tai. Mae hyn yn lefel uwch na'r llynedd, yn bennaf oherwydd bod y gwaith ar Dai Cyngor yn mynd ymlaen yn dda, gyda gwariant o £1.6m (£1.0m yn 2013/14) hyd at ddiwedd y chwarter. Hefyd mae'r gwariant ar grantiau a benthyciadau preifat yn £0.9m (£0.3m yn 2013/14) hyd at ddiwedd y chwarter hwn.

**2.3** Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar gynlluniau a gyllidir gan grantiau a phrosiectau eraill lle gall bod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel yr adroddwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a gyllidir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a gyllidir gyda Grantiau Ewropeaidd ar y gweill (sef Cynllun y Tair Tref, Prosiect Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona a Phrosiect Amgylchedd Arfordirol Môn). Hefyd, mae 8 o brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru wedi cychwyn (un yn parhau o 2013/14), y mwyaf sylweddol oedd y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

**2.3.1** Y pum prosiect amlycaf o ran risg yw:-

**2.3.1.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sicrhau cyllid grant o £7,490k gan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd ariannol nesaf, ar sail cyllid cyfatebol. Y gyllideb gyfan a gymeradwywyd fis Mehefin gan Lywodraeth Cymru am 2014/15 yw £2,050k. Mae'r gyllideb hon o £2,050k wedi ei rhannu dros 7 o brosiectau, Galluogi Cartrefi Newydd (£485k), Cartrefi Tref (£225k), Canol Tref Llawn Addewid (£385k), Hyb Neuadd y Farchnad (£10k), Swyddi a Busnes (£190k), Cymuned Egnïol (£635k) a Darparu Cynaliadwy (£120k). Oherwydd cymeradwyo'r cyllid yn hwyr (Mehefin 10) a gofynion Llywodraeth Cymru (e.e. amod taliadau cyfreithiol 4 Awst) ychydig iawn o arian cyfalaf a wariwyd erbyn diwedd yr ail chwarter, ac mae risg sylweddol o danwariant. Mae trefniadau yn awr yn cael eu gwneud i fodloni amodau grant Llywodraeth Cymru ac i symud ymlaen gyda chynlluniau gwariant cyfalaf ymarferol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i leihau'r risg o danwario. Hyd at chwarter 2, gwariwyd £4k o arian cyfalaf dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a refeniw ychwanegol o £34.5k yn erbyn y gyllideb gyfan o £2,050k. Mae tri phrosiect wedi eu cymeradwyo dan y cynllun Cartrefi Tref, sef Gwella Fflatiau Llys Watling, Gwella Cartrefi Caergybi ac Effeithlonrwydd Ynni a Grant Atgyweirio i Brynwyr Tro Cyntaf – mae'r rhain yn ymrwymo'r gyllideb hon yn llawn, sef £225k.

**2.3.1.2** Mae rhaglen o welliannau i fân-ddaliadau, a gyllidir o'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti, yn ei phumed flwyddyn. Mae'r 8 cynllun sydd ar waith fel rhan o'r rhaglen gosodiadau trydanol bron wedi eu cwblhau. Mae gwaith atgyweirio'n cael ei wneud ar 4 o dai a bydd un cynllun arall yn cychwyn tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gwahoddir tendrau am ddau gynllun atgyweirio pellach yn yr hydref. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg ar y blaen i dderbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £2,051k yn cael ei ddwyn ymlaen o 2013/14 a rhaid ychwanegu hwn at unrhyw wariant yn 2014/15. Mae'r rhaglen ar gyfer cynhyrchu incwm yn dangos arwyddion ei bod yn gwella, gyda derbyniadau cyfalaf o £631k wedi eu cytuno yn y flwyddyn ariannol hon. Disgwylir hefyd y bydd gwerthiannau mawr yn digwydd yn ail hanner y flwyddyn.

**2.3.1.3** Cynllun arall i'w nodi yw prosiect Pier Biwmares (rhan o'r Cynllun Amgylchedd Arfordirol). Er bod y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau, nodwyd eisoes fod trafodaethau'n parhau ynghylch gwerth gwirioneddol y gwaith a wnaed. Nid yw'r ffi gadw wedi ei thalu a gweithir ar setliad ar hyn o bryd. Nid yw'r cyfrif terfynol wedi ei gyhoeddi. Nid yw'n glir a fydd y mater hwn yn cael ei ddatrys yn y flwyddyn ariannol hon ynteu'r nesaf.

**2.3.1.4** Mae nifer o brosiectau a chynlluniau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaeth a thrawsnewid corfforaethol eisoes wedi cychwyn neu yn yr arfaeth yn y tymor byr / canol; mae hyn yn cynnwys y gymeradwyaeth ddiweddar, mewn egwyddor, ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, Band A, a phrosiectau yn ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion hŷn. Bydd y prosiectau a'r cynlluniau hyn yn gofyn am arian cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdod hwn a bydd angen i'r cynlluniau rheoli asedau statudol corfforaethol fod wedi eu halinio'n agos i ddarparu'r derbyniadau cyfalaf sydd eu hangen er mwyn lleihau'r angen i fenthyca. Bydd unrhyw fenthyca a wneir yn cynyddu'r pwysau ar y cyllidebau yn y dyfodol ac yn cynyddu'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â dyled.

**2.3.1.5** Y cynllun olaf i'w nodi yw'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Ehangu Dechrau'n Deg sydd yn ei hail flwyddyn. Mae'r grant ar gyfer 2014/15 yn £720k. Yn ystod yr ail chwarter ychydig iawn o arian a wariwyd, sef ar gais cynllunio, gwaith ecolegol a gwasanaethau peirianneg. Rhaglenwyd y bydd gwaith yn cychwyn ar y safle yn yr hydref. Mae risg y bydd y prosiect yn costio mwy na'r grant ar ei gyfer; mae costau'r prosiect yn cael eu hail-werthuso ar hyn o bryd. Ceisiwyd cwrdd â'r diffyg trwy'r Grant LILILIA, er y bydd angen caniatâd i wneud hynny. Yn ogystal, gofynnir am £100k ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ond nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma.

## 3. ADNODDAU

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae bidiau'r Cyngor eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y Rhaglen Cydgyfeiriant cyfredol, ac mae'r cyllid cyfatebol hefyd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo.

**3.1.2** Mae SCEC wedi cymeradwyo'r gyllideb ychwanegol o £600k i adeiladu'r 3 uned busnes "Ardderchog" BREEAM ychwanegol ar safle Pen yr Orsedd, ac i ddymchwel hen Adeilad Hyfforddiant Môn. Bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn y 3ydd chwarter a bydd gwaith i ddymchwel Adeilad Hyfforddiant Môn yn cychwyn yn Chwarter 4 yn ôl y rhaglen. Disgwylir y bydd y prosiect yn dod i ben yn Chwarter 1 2015/16.

**3.1.3** Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Cynllun Atal Llifogydd ym Miwmares ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud ar y dyluniadau terfynol a'r dogfennau tendro. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw llygad agos ar y broses gyda golwg ar gyllido'r cynllun. Os llwyddir i ddenu cyllid, rhagwelir y gallai'r gwaith gychwyn yn Ionawr 2015 a chymryd 6 mis i'w gwblhau.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Mae'r derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn hon hyd yn hyn fel a ganlyn:-

| | Derbyniwyd hyd at 30 Medi 2014 £'000 |
|---|---|
| Tai – CRT | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 33 |
| Gwerthu Tir | 0 |
| Tai Sector Preifat | |
| Gwerthu Plotiau | 0 |
| Taliadau a ad-dalwyd | 78 |
| Grantiau a ad-dalwyd | 5 |
| Cronfa'r Cyngor : | |
| Mân-ddaliadau | 292 |
| Cyffredinol | 189 |
| Diwydiannol | 44 |
| Ysgolion | 126 |
| **Cyfanswm** | **767** |

**3.2.2** Mae'r holl dderbyniadau yn is na'r lefelau a ragwelwyd. Mae ceisio rhagamcanu lefel ac amseriad y derbyniadau yn parhau i fod yn broblem barhaol, er bod yr hinsawdd economaidd yn gwella yn genedlaethol.

## 4. NEWIDIADAU A NEWIDIADAU POSIB ELENI

**4.1** Mae'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu fel a ganlyn:-

| | Dygwyd Ymlaen 2013/14 £000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | Dyrannwyd 2014/15 £'000 | Addasiadau 2014/15 | Cyfanswm swm ar gael 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfatebol/ Adfywio | **200** | Dim | Dim | Dim | 200 |
| Hamdden – Arian wrth gefn Gwelliannau | **196** | Dim | Dim | Dim | 196 |
| Rhesymoli Asedau | **2,100** | Dim | Dim | Dim | 2,100 |
| Heb ei dyrannu | **340** | Dim | Dim | Dim | 340 |
| Astudiaethau Dichonoldeb | **460** | Dim | Dim | Dim | 460 |
| Gwario i Arbed | **Dim** | 850 | Dim | Dim | 850 |
| Benthyca digefnogaeth* | **Dim** | 1,000 | Dim | Dim | 1,000 |

*Nid yw'r elfen sydd heb ei ddefnyddio o'r arian wrth gefn ar gyfer benthyca digefnogaeth yn cael ei gario i'r flwyddyn newydd

**4.1.1** Os daw'n amlwg na fydd modd sicrhau'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer, neu os yw pwysau eraill yn codi ar y gyllideb, efallai y bydd rhaid defnyddio llai o'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu. Bydd angen cynnal yr adolygiad hwn pan ystyrir unrhyw ymrwymiadau i'r dyfodol o'r cronfeydd wrth gefn hyn. Un enghraifft o bwys yw'r Cynllun Dechrau'n Deg, bydd angen adnoddau ychwanegol ar ei gyfer o bosib ac y byddai'n rhaid ei gymryd i ystyriaeth pan fydd sylw'n cael ei roi i ddyraniadau pellach o'r cronfeydd wrth gefn hyn.

## 5. EDRYCH YMLAEN

**5.1** Yr eitemau sylweddol y mae'n werth sôn amdanynt yma yw:-

**5.1.1** Ysgolion y 21ain Ganrif: Mae dwy elfen i'r rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif y dylid eu nodi. Y rhain yw'r Achos Amlinellol Strategol (AAS) ar gyfer cynlluniau o fewn Bandiau A - D a'r Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd

**5.1.2** Mae'r AAS ar gyfer Ysgol y Llannau wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd Achos Busnes Amlinellol yn cael ei baratoi gyda hyn ond bydd angen penderfynu ar y safle ar gyfer yr ysgol arfaethedig newydd cyn hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych am ostyngiad pellach yn y gyllideb o £5.08m ar gyfer y prosiect o fewn yr Achos Busnes Amlinellol.

**5.1.3** Mae'r AAS/ABA ar gyfer yr Ysgol Gynradd newydd yng Nghaergybi yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'w gyflwyno erbyn dechrau mis Tachwedd. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gaffael fel prosiect dylunio ac adeiladu drwy'r Fframwaith Ysgolion 21ain Ganrif. Cynhaliwyd cyfarfod briffio gyda'r contractwyr yr wythnos diwethaf. Gwahoddwyd y tendrau ar gyfer y prosiect a bydd y rhain yn cael sylw yng nghanol mis Tachwedd.

**5.2** Adroddwyd eisoes fod Local Partnerships wedi bod yn gweithio gyda swyddogion i wneud gwaith gwerthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen rhesymoli asedau'r Cyngor. Cafodd adroddiad ar 'Gwerthuso Opsiynau ar gyfer Datrysiadau Darparu Posib' ei gyflwyno'n gynharach yn 2013/14. Ers hynny, parhawyd i ddefnyddio Local Partnerships i wneud gwaith pellach er mwyn datblygu cynigion sydd wedi eu halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau allweddol a'r gofynion cysylltiedig o ran asedau. Bydd y gwasanaethau perthnasol yn cyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

# Cyllideb Gyfalaf 2014/15 : Medi 2014

| Prosiectau | Cyllideb 2014/15 £'000 | Llithriad 2013/14 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | Gwariant % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **6,634** | **2,365** | **8,999** | **2,507** | **28** | |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 5,734 | 1,351 | 7,085 | 1,569 | 22 | Yn ystod Ch1 a Ch2, roedd y gwariant yn bennaf ar gynllunio ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o 2013/14. Erbyn hyn, rydym wedi caffael rhaglen 2014/15 a disgwylir y bydd gwriant yn cynyddu yn Ch3. |
| Preifat : Grantiau a Benthyciadau | 900 | 621 | 1,521 | 870 | 57 | Disgwylir y bydd cynlluniau benthyca a grantiau wedi eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Tai Fforddiadwy | 0 | 393 | 393 | 68 | 17 | Mae blaenoriaethau'n parhau i gael eu hystyried ar y cyd gyda'r cyllid sydd raid wrtho ar gyfer y cynllun achub morgais / prynu cartref a fydd yn cael budd o gyfraniad gan Cymdeithas Tai Eryri. |
| **Addysg** | **1,720** | **1,049** | **2,769** | **737** | **27** | |
| Arian wrth Gefn - Ysgolion yr 21ain Ganrif | 0 | 789 | 789 | 0 | 0 | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 0 | 61 | 61 | 16 | 26 | Ychydig iawn o wariant fu ar y rhaglen yn y flwyddyn hyd yma ar waith archwilio safleoedd a gwerthuso safleoedd. |
| Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg | 720 | 0 | 720 | 25 | 3 | Bu'r gwariant hyd at ddiwedd Ch2 ar gais cynllunio, gwaith ecoleg a gwasanaethau peirianeg yn gyfyngedig. Rhaglenwyd y bydd gwaith yn cychwyn ar y safle yn yr Hydref er, oherwydd risg o orwariant sylweddol, mae costau'r prosiect yn cael eu hail-werthuso. |
| Addysg : Arall | 1,000 | 199 | 1,199 | 696 | 58 | Mae hyn yn ymwneud â chynlluniau mânweithiau mewn gwahanol ysgolion. Mae'r cyllidebau wedi eu hymrwymo'n llawn. Mae gwaith yn parhau ac mae dros hanner y gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Ch2. |
| **Adfywio** | **4,491** | **2,106** | **6,597** | **2,213** | **34** | |
| Datblygu Economaidd: Seilwaith Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 1,666 | 215 | 1,881 | 820 | 44 | Mae gwaith i adeiladu'r 4 uned ym Mhen yr Orsedd wedi ei gwblhau a disgwylir trosglwyddiad yn Ch3. Cymeradwywyd cais i gael cyllid ychwanegol gan SCEC i adeiladu 3 uned arall a rhaglenwyd y bydd gwaith yn cychwyn yn Ch3. |
| Datblygu Economaidd : Arall | 650 | 721 | 1,371 | 328 | 24 | Mae hyn yn ymwneud â'r Cynllun Cyllid Cyfatebol Cyfenter, Grantiau Cronfa Fuddsoddi Leol, Cynlluniau i Ymestyn Canolfan Busnes Ynys Môn, Prosiect Amgylcheddol Ynys Môn a Thoiledau Cyhoeddus. |
| Eiddo : Rhaglen Gwella'r Mân-ddaliadau | 250 | 0 | 250 | 74 | 30 | Mae'r rhaglen o welliannau i fân-ddaliadau,sy'n cael ei chyllido o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti, yn ei phumed flwyddyn. Mae'r 8 cynllun sydd ar waith fel rhan o'r rhaglen gosodiadau trydanol bron wedi eu cwblhau. Mae gwaith atgyweirio'n cael ei wneud ar 4 o dai a bydd un cynllun arall yn cychwyn tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gwahoddir tendrau am ddau gynllun atgyweirio pellach yn yr hydref. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg o flaen derbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £2,051k yn cael ei ddwyn ymlaen o 2013/14, a bydd rhaid ychwanegu unrhyw wariant yn 2014/15 at hwn. Mae'r rhaglen ar gyfer cynhyrchu incwm yn dangos arwyddion eu bod yn gwella, gyda derbyniadau cyfalaf o £631k wedi eu cytuno yn y flwyddyn ariannol hon. Disgwylir hefyd y bydd gwerthiannau mawr yn digwydd yn ail hanner y flwyddyn. |
| Rheoli Gwastraff : Compownd i Gadw Cynwysyddion ym Mona | 125 | 0 | 125 | 0 | 0 | Y cynllun gwreiddiol ar gyfer y gwariant oedd ar gyfer y safle ym Mhenhesgyn. Erbyn hyn ystyrir bod y safle hwn yn anaddas a bydd yr arian, felly, yn cael ei wario ar y Compownd ym Mona, a fyddai'n cymryd lle'r ardal a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Bryn Sunsur. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 0 | 1,170 | 1,170 | 633 | 54 | Bydd y gyllideb yn cael ei wario ar brosiectau ac eiddo o fewn Menter Treftadaeth Treflun Caergybi. |
| Priffyrdd : Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2014/15 | 1,800 | 0 | 1,800 | 358 | 20 | Disgwylir y bydd y gwaith yn cynyddu yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf ohono'n cael ei wneud yn ail hanner y flwyddyn. Disgwylir y bydd y gwaith a raglenwyd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| **Arall** | **1,947** | **1,407** | **3,354** | **813** | **24** | |
| Priffyrdd : Arall | 650 | 378 | 1,028 | 473 | 46 | Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â cherbydau, strwythurau, cerbydlonnydd, meysydd parcio a goleuadau stryd ac mae'r gwaith yn parhau fel yr oedd disgwyl. |
| Eiddo : Arall | 770 | 453 | 1,223 | 117 | 10 | Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â mynediad i'r anabl a gwaith i reoli risgiau adeiladau, Doc Pysgod Caergybi ac estyniadau i ddwy fynwent, un yn Llanddona a'r llall yn Llanbedrgoch. |
| TGCh : Strategaeth | 150 | 456 | 606 | 0 | 0 | Dim gwariant ar y Strategaeth TGCh yn ystod y flwyddyn hyd yma. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol : Arall | 377 | 120 | 497 | 223 | 45 | Mae'r gwariant yma yn cynnwys adnewyddu Cartref Gofal Brwynog, prynu nifer o liniaduron a phrynu offer arbenigol, fel gwelyau proffil. |
| **Cyfanswm** | **14,792** | **6,927** | **21,719** | **6,270** | **29** | |

## ATODIAD C



| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynllinwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Cost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tai** | | | | |
| | | **Tai Sector Preifat** | | | | |
| 1,351 | **5,734** | Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai | Gwaith Cynnal a Raglenwyd ar Dai Cyngor | 5,350 | 2,600 | 2,750 |
| | | | Gwaith SATC a Gynlluniwyd ar gyfer 2014/15 – Cronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu | 400 | | 400 |
| | | | Newid Tenantiaeth SATC 2014/15 - Cronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu | 350 | | 350 |
| | | | Gwaith Amgylcheddol 2014/15 - Cronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu | 250 | | 250 |
| | | | Adolygiad o Dai Gwarchod - Cronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu | 735 | | 735 |
| | | | | | | |
| | | **Cynlluniau Tai Sector Preifat :** | | | | |
| 621 | **900** | Cynlluniau Benthyciadau a Grantiau ar gyfer Tai Sector Preifat | Grantiau Effeithlonrwydd Ynni –rhaglen 14/15 | 171 | | 171 |
| | | | Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf – rhaglen 14/15 | 314 | | 314 |
| | | | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl– rhaglen 14/15 | 851 | | 851 |
| | | | Grant Gwaith Trwsio Brys | 21 | | 21 |
| | | | Grantiau / Benthyciadau ar gyfer Cartrefi Gweigion | 140 | | 140 |
| | | | Grant Diogelwch Tân | 24 | | 24 |
| 393 | | Cynlluniau Tai Fforddiadwy | Dim rhagor o wybodaeth | 393 | | 393 |
| **2,365** | **6,634** | **Cyfanswm Tai** | | **8,999** | **2,600** | **6,399** |
| | | | | | | |
| | | **Addysg** | | | | |
| | **720** | Rhaglen Ehangu Gyfalaf Dechrau'n Deg | Addasu'r Adeilad Dechrau'n Deg yng Nghaergybi | 720 | 720 | |
| 850 | | Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif | Costau Cyfalaf a ffioedd dylunio ar gyfer Ysgol y Llannau. Cynllunio ar gyfer Ysgol newydd yng Nghaergybi | 61 | | 61 |
| | | | Cronfa Wrth Gefn | 789 | | 789 |
| 199 | **1,000** | Ysgolion - Adnewyddu | Ysgol Syr Thomas Jones - Adnewyddu Toiledau | 100 | | 100 |
| | | | Ysgol Uwchradd Bodedern - Bwyler Newydd a Gwaith Toi | 525 | | 525 |
| | | | Ysgol Gyfun Llangefni – Gwaith ar faes parcio'r ysgol, ailweirio, Drysau a'r system Larwm Tân | 110 | | 110 |
| | | | Ysgol David Hughes – Risg Tân | 50 | | 50 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi – Bloc Gwyddoniaeth, Tô, Bwyler | 200 | | 200 |
| | | | Ysgol Gynradd Y Borth – Toiledau | 30 | | 30 |
| | | | Ysgolion – Risg Legionella | 50 | | 50 |
| | | | Ysgolion Gynradd – Ailweirio a Goleuadau | 50 | | 50 |
| | | | Ysgolion Gynradd – Larymau Tan | 30 | | 30 |
| | | | Ysgolion Gynradd – Bwyleri | 30 | | 30 |
| | | | Cyllideb sydd heb ei dyrannu | 24 | | 24 |
| **1,049** | **1,720** | **Is-Gyfanswm** | | **2,769** | **720** | **2,049** |

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynllinwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Cost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Datblygu Economaidd** | | | | |
| 215 | **1,666** | Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Adeiladau | 7 uned newydd ar safle Pen yr Orsedd a dymchwel adeilad Hyfforddiant Môn | 1,881 | 1,500 | 381 |
| 277 | | Cyllid Cyfatebol ar gyfer Cynllun Cyfenter | Mae hwn yn cael ei redeg gan Menter Môn a hwn yw cyfraniad y Cyngor yn rhoi grantiau i fentrau economaidd cymunedol yn y trydydd sector. | 277 | | 277 |
| | **130** | Grantiau Cronfa Fuddsoddi Leol | Mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i fusnesau lleol | 130 | 100 | 30 |
| | **25** | Cynlluniau i Ymestyn Canolfan Fusnes Ynys Môn | Gwnaed cynlluniau yn 2007 i ymestyn y ganolfan. Diweddaru ac adolygu'r cynlluniau hyn i'w cyflwyno ar gyfer gwneud cais cynllunio i ymestyn y Ganolfan Fusnes | 25 | | 25 |
| | **495** | Prosiect Amgylcheddol Arfordirol Ynys Môn | Porth Dafarch, Ynys Gybi | 125 | 125 | |
| | | | Pontwns Gorsaf Cychod Hwylio, Porthaethwy | 57 | 57 | |
| | | | Ffordd y Traeth, Rhosneigr | 107 | 107 | |
| | | | Llithrfa, Trearddur | 57 | 57 | |
| | | | Ardal Harbwr, Cemaes | 57 | 57 | |
| | | | Mynediad i'r Traeth Cyfan, Cemaes | 92 | 22 | 70 |
| 444 | | Arall | Dim rhagor o wybodaeth | 444 | | 444 |
| **936** | **2,316** | **Is-Gyfanswm** | | **3,252** | **2,025** | **1,227** |
| | | **Eiddo** | | | | |
| | **250** | Mân-ddaliadau (Arian wedi ei neilltuo i'r pwrpas) | Dim Rhaglen ar Fân-ddaliadau | 250 | | 250 |
| 2 | **200** | Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Cyhoeddus | Ysgol Syr Thomas Jones - Mynediad i'r Anabl | 5 | | 5 |
| | | | Ysgol Gyfun, Llangefni - Mynediad i'r Anabl | 40 | | 40 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi - Gwaith Anabledd | 30 | | 30 |
| | | | Ysgol Gynradd Fali - Gwaith Anabledd | 10 | | 10 |
| | | | Ysgol Esceifiog - Gwaith Anabledd | 30 | | 30 |
| | | | Ysgol Llanfechell - Gwaith Anabledd | 15 | | 15 |
| | | | Ysgolion uwchradd - Cronfa heb ei dyrannu ar gyfer gwaith mynediad i'r anabl | 50 | | 50 |
| | | | Cronfa wrth gefn: Cyffredinol | 22 | | 22 |
| 143 | **450** | Rheoli Risg Adeiladau a Gwaith Cynnal Strwythurol | Ysgolion Cynradd – Cronfa heb ei dyrannu – Risgiau Legionella | 50 | | 50 |
| | | | Ysgolion Cynradd – Cronfa heb ei dyrannu - LPG | 30 | | 30 |
| | | | Ysgolion Cynradd – Cronfa heb ei dyrannu - Ceginau | 50 | | 50 |
| | | | Amrywiol – Cydymffurfiaeth gyda Legionella ACOP | 50 | | 50 |
| | | | Last Trading Post – Ffenestr Newydd | 3 | | 3 |
| | | | Swyddfa'r Post ym Mrynsiencyn – To Fflat | 3 | | 3 |
| | | | Depo'r Cyngor – Cael gwared ar Asbestos | 10 | | 10 |
| | | | Uned 2 ym Modedern – Troi ffenestr yn ddrws | 2.5 | | 2.5 |
| | | | Yr Hen Ysgol Genedlaethol - Gwaith Toi | 15 | | 15 |
| | | | Yr Hen Ysgol Genedlaethol – Wal Gynnal | 5 | | 5 |
| | | | Mynediad Foel Fawr – Trac Mynediad | 4 | | 4 |
| | | | Pob eiddo – Risg Tân | 17 | | 17 |
| | | | Pob eiddo – Bwyleri | 100 | | 100 |
| | | | Pob eiddo – Rhaglen ddiogelwch ar gyfer LPG | 50 | | 50 |
| | | | Cronfa wrth gefn: Cyffredinol | 203.5 | | 203.5 |
| (3) | **120** | Estyniad i Fynwent Llanddona | Ymestyn Mynwent Llanddona | 117 | | 117 |
| 110 | | Estyniad i Fynwent Llanbedrgoch | Ymestyn Mynwent Llanbedrgoch | 110 | | 110 |
| 130 | | Doc Pysgod Caergybi | Dim rhagor o wybodaeth | 130 | | 130 |
| 11 | | Rheoli Asedau - Gwerthuso Opsiynau | Dim rhagor o wybodaeth | 11 | | 11 |
| 40 | | Caffi Wendon | Dim rhagor o wybodaeth | 40 | | 40 |
| 20 | | Arall | Dim rhagor o wybodaeth | 20 | | 20 |
| **453** | **1,020** | **Is-Gyfanswm** | | **1,473** | | **1,473** |

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynllinwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Cost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwastraff** | | | | |
| | **125** | Compownd Storio Cynwysyddion Gwastraff – Penhesgyn | Defnyddir yr arian ar gyfer Compownd Storio Cynwysyddion Gwastraff ym Mona. Byddai'r ardal yn cael ei defnyddio yn lle'r ardal a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Bryn Sunsur. | 125 | | 125 |
| **0** | **125** | **Is-Gyfanswm** | | **125** | | **125** |
| | | **Cynllunio** | | | | |
| 1,170 | | Adfywio Ffisegol (3 Tref) | Prosiectau ac Eiddo o fewn Menter Treftadaeth Treflun Caergybi | 1,170 | 1,120 | 50 |
| **1,170** | **0** | **Is-Gyfanswm** | | **1,170** | **1,120** | **50** |
| | | **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | |
| | **1,800** | Menter Benthyca Llywodraeth Leol | Ail-wynebu Cerbydlon | 1,490 | | 1,490 |
| | | | Gwella Draenio | 170 | | 170 |
| | | | Ailadeiladu troedffordd | 140 | | 140 |
| (28) | **200** | Cerbydlonnydd | Pengorffwysfa i Laneilian | 72 | | 72 |
| | | | Pentref Tregele | 30 | | 30 |
| | | | | | | |
| | | | Ffordd Ravenspoint, Trearddur | 70 | | 70 |
| 51 | **50** | Meysydd Parcio | Dim Rhaglen ar gyfer Meysydd Parcio | 101 | | 101 |
| 35 | **180** | Strwythurau | Aberffraw | 90 | | 90 |
| | | | Llanfairynghornwy | 90 | | 90 |
| | | | Dim rhagor o wybodaeth | 35 | | 35 |
| (3) | **20** | Goleuadau Stryd | Edrych ar oed lampau a gosod rhai newydd yn lle rhai aneffeithiol | 17 | | 17 |
| (3) | **50** | Ffyrdd a Throedffyrdd ar Stadau | Dim Rhaglen ar gyfer Ffyrdd Stadau a Throedffyrdd | 47 | | 47 |
| 237 | **150** | Cerbydau | Prynu Cerbydau Fflyd - am fynd allan i dendr | 387 | | 387 |
| | | | | | | |
| 89 | | Lliniaru Llifogydd ym Miwmares | Gostwng Risg o Lifogydd ym Miwmares | 89 | 72 | 17 |
| **378** | **2,450** | **Is-Gyfanswm** | | **2,828** | **72** | **2,756** |
| | | **Corfforaethol** | | | | |
| 456 | **150** | Strategaeth TGCh | System Wrth Gefn ar gyfer TGCh | 150 | | 150 |
| | | | Symud o Windows XP i Windows 7 | 37 | | 37 |
| | | | Microsoft Exchange | 75 | | 75 |
| | | | 3Comm Refresh | 50 | | 50 |
| | | | Ffibr PSBA i ysgolion | 50 | | 50 |
| | | | Cost Ychwanegol ar gyfer Systemau Wrth gefn | 20 | | 20 |
| | | | Gosod serfwyr newydd yn lle rhai 2003 | 100 | | 100 |
| | | | Costau Trwyddedu ar gyfer Microsoft ac Oracle | 30 | | 30 |
| | | | Costau Ychwanegol ar gyfer symud o XP | 20 | | 20 |
| | | | Cronfa Wrth Gefn ar gyfer TGCh | 74 | | 74 |
| **456** | **150** | **Is-Gyfanswm** | | **606** | | **606** |

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynllinwyd | Cyllideb(‘000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) (‘000) | Cost i CSYM (‘000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **<u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u>** | | | | |
| **120** | | Brwynog | Adnewyddu Cartref Gofal Brwynog | 120 | | 120 |
| | **377** | Cronfa Gofal Canolraddol | Gwasanaeth Cymorth 24/7 ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 5 | 5 | |
| | | | Gwreiddio’r rôl Fferylliaeth gofal canolraddol mewn gofal sylfaenol | 5 | 5 | |
| | | | Darparu Offer ac Addasiadau | 90 | 90 | |
| | | | Offer Teleofal | 30 | 30 | |
| | | | Gweithio’n Gallach a Gweithio Hyblyg | 97 | 97 | |
| | | | Offer Arbenigol | 50 | 50 | |
| | | | Cyd-leoli Staff Tîm Amlddisgyblaethol | 20 | 20 | |
| | | | Hybiau Cymunedol | 80 | 80 | |
| **120** | **377** | **Is-Gyfanswm** | | **497** | **377** | **120** |
| **4,562** | **8,158** | **Cyfanswm – Cyffredinol** | | **12,720** | **4,314** | **8,406** |
| **6,927** | **14,792** | **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **21,719** | **6,914** | **14,805** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **3 TACHWEDD 2014** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2014/15** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT / BETHAN HUGHES OWEN** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BEN DAVIES**<br>02148 752510<br>BenDavies@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Ym mis Chwefror 2014, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2014/15 gyda gwariant gwasanaethau net o £126.7m i gael ei gyllido o incwm o'r dreth gyngor a grantiau cyffredinol.
2. Roedd angen arbedion o £6.3m ar gyfer y gyllideb am 2014/15. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y tanwariant/gorwariant a ddangosir.
3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol Gwasanaethau'r Cyngor am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol a'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan, gan nodi'r sefyllfa gyffredinol a ffynonellau'r prif wahaniaethau.
4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2014/15 yw gorwariant o £456k ac mae eglurhad am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
5. Argymhellir y dylid nodi'r isod:-

   **(i)** y sefyllfa a nodir yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma;
   **(ii)** y diffyg a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn; ac
   **(iii)** y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

6. Gofynnir i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatblygu cynigion i ddychwelyd y Cyngor yn ôl o fewn y gyllideb yn 2014/15 ac i adrodd ar rhain i'r Pwyllgor Gwaith nesaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim mater wedi codi |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim mater wedi codi |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro’r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2014/15

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2014/15 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 10 Chwefror 2014 a’i mabwysiadu gan y Cyngor Sir yn Chwefror 2014); ac
- Adroddiad Monitro’r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1 2014/15 (fel y cafodd ei gyflwyno i, a’i derbyn gan, y Pwyllgor hwn ar 8 Medi 2014.

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2 2014/15

## 1. Balans Cyffredinol - Sefyllfa Gychwynnol a Chyfraniad a Gynlluniwyd yn 2014/15

**1.1** Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yma yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2014, roedd y sefyllfa alldro derfynol am 2013/14 yn sylweddol well na'r disgwyl; felly roedd y balans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol yn £5.7m.

## 2. Chwarter 2 – Perfformiad Ariannol Fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth am hanner cyntaf y flwyddyn, a'r sefyllfa alldro a ragamcenir ar gyfer pob un i'w weld yn Anecs A. Y rhagolwg cyffredinol yw y bydd gorwariant net ar y gwasanaethau o £456k. Isod, ceir crynodeb sy'n nodi'r prif wahaniaethau.

| Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31/03/15 yn seiliedig ar Wybodaeth Ariannol Hydref 2014 | |
|---|---|
| | **(Tan)/ Gorwariant £000** |
| Addysg Ganolog | (318) |
| Gofal Cymdeithasol | (645) |
| Priffyrdd | 152 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (163) |
| Corfforaethol – gwasanaethau eraill | 168 |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | 144 |
| Cyllid (ac eithrio Budd-daliadau a ganiatawyd) | 757 |
| TGCh | (188) |
| Arall | 222 |
| Net | 456 |

## 3. Eglurhad o'r Prif Amrywiadau

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd tanwariant o £167k (5%) ar y gwasanaeth hwn yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn. Y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £318k (4%). Y rhesymau mwyaf am y tanwariant a ragamcenir yw:-

- Disgwylir y bydd tanwariant o £100k (22%) o ran costau staffio dysgu plant yn eu cartrefi, llogi adeiladau, ymgynghoriaeth a thacsis.
- Rhagwelir y bydd tanwariant o £65k (13%) ar brydau ysgolion cynradd oherwydd contract arlwyo newydd sy'n fwy cost-effeithiol.
- Rhagwelir y bydd tanwariant o £180k (16%) ar gostau all-sirol erbyn diwedd y flwyddyn, ond cyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw yw hon, felly, mae lefel o ansicrwydd wrth ddarogan y sefyllfa.
- Rhagwelir y bydd y tanwariannau uchod yn cael eu gwrthbwyso gan orwariant o £130k a ragamcenir mewn perthynas â'r gwasanaethau ymgynghorol a ddarperir gan Cynnal (36%).

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd y gwasanaeth wedi gorwario gan £14k (2%) yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2014, a rhagwelir y bydd yn cynyddu i £55k (2%) erbyn diwedd y flwyddyn. Y prif reswm am hyn yw y rhagwelir y bydd Oriel Ynys Môn yn gorwario gan £100k oherwydd methiant i gwrdd â thargedau incwm a oedd, ar gyfer y flwyddyn hon, yn adlewyrchu disgwyliadau'n dilyn arddangosfa Venice yn 2013/14. Bydd hyn yn cael ei liniaru i raddau gan y tanwariant a ragwelir o £50k ar y gwasanaeth llyfrgelloedd y mae modd ei briodoli i raddau helaeth i swydd wag.

## 3.2 Cymunedau

### 3.2.1 Gofal Cymdeithasol

**3.2.1.1** Roedd tanwariant o £582k (4%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd yn codi i £644k (2%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Y prif feysydd lle rhagwelir tanwariant yw'r Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed (£465k, 8%) a'r Uned Ddarparu (£213k, 3%), oherwydd arbedion ar gostau cyflogi, gor-gyflawni incwm a llai o gostau trwsio a chynnal a chadw. Mae'r Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed yn faes anwadal ac mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i wella'r rhagdybiaethau ar draws yr holl grwpiau cleient ynghyd ag ail-alinio cyllidebau rhwng Gofal Preswyl a Gofal Cartref er mwyn cwrdd â'r galw; mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau a dylid cael darlun mwy cyson ar gyfer y dyfodol. Disgwylir bydd cyllideb Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc o fewn y gyllideb am y flwyddyn ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth cyllid er mwyn sicrhau bod y costau rhagdybiedig ar gyfer lleoliadau all-sirol mor gywir â phosib.

### 3.2.2 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.2.2.1** Roedd tanwariant o £52k (6%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd wedi tanwario gan £52k (21%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i swyddi gweigion, gwario'n hwyrach na'r disgwyl ar y Prosiect Diwygio Lles a thanwariant yn yr adain Digartrefedd ar gostau Gwely a Brecwast, wedi ei wrthbwyso gan orwariant ar y Cynllun Prydlesu Sector Preifat.

### 3.2.3 Tai (CRT)

**3.2.3.1** Roedd tanwariant o £25k (1%) yn y gwasanaeth yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn, rhagwelir y bydd yn codi i £101k (200%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod y codiadau rhent a gynghorwyd gan Lywodraeth Cymru yn uwch na'r disgwyl.

## 3.3 Datblygiad Cynaliadwy

### 3.3.1 Datblygu Economaidd

**3.3.1.1** Roedd tanwariant o £83k (18%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd yr ail chwarter ond rhagwelir y bydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cydymffurfio gyda'r gyllideb.

### 3.3.2 Hamdden

**3.3.2.1** Roedd gorwariant o £2k (<1%) yn y gwasanaeth hwn hyd at 30 Medi 2014, a rhagwelir gorwariant o £78k (4%) erbyn diwedd y flwyddyn. Y prif resymau am hyn yw:-

- Roedd y cyllidebau ar gyfer y Parciau a'r Cyfleusterau Awyr Agored yn rhan o'r arbedion effeithlonrwydd a dderbyniwyd ar gyfer 2012/13 ond nid yw'r cyfan o'r safleoedd wedi cael eu hallanoli - rhagdybir gorwariant o (£108k);
- Rhagwelir y bydd gorwariant o £60k ar y cwrs golff oherwydd methiant i gwrdd â'r targedau incwm, problem sy'n dyddio'n ôl i'r 1990'au;
- Bydd y gorwariant yn cael ei liniaru i raddau gan y gwarged o £100k (14%) a ragdybir ar y canolfannau hamdden a hynny i'w briodoli i lwyddiant o ran cynhyrchu incwm.

### 3.3.3 Arforol

**3.3.3.1** Roedd gorwariant o £100k (200%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter dau, a rhagdybir y bydd y gorwariant yn £72k (18%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.3.3.2** Dyma'r prif resymau am y gorwariant rhagdybiedig:-

- Incwm y blaen-draeth yn tangyflawni gan £38k (64%), gyda'r tymor prysuraf wedi dod i ben a dim incwm sylweddol pellach yn cael ei ragweld cyn diwedd y flwyddyn;
- Diffyg o £43k (47%) yn y gyllideb ar gyfer ffioedd angori;
- Caiff y rhain eu lliniaru i raddau gan yr arbedion o £30k a ragwelir mewn perthynas â gwaith contractyddol. Cyllideb yw hon ar gyfer costau ymatebol ac mae'n fwy heriol i'w darogan na meysydd eraill.

### 3.3.4 Priffyrdd

**3.3.4.1** Roedd tanwariant o £96k (2%) yn y gwasanaeth hwn erbyn diwedd yr ail chwarter a rhagwelir y bydd wedi tanwario gan £152k (2%) erbyn diwedd y flwyddyn (heb gynnwys effaith y cyllidebau gwaith (traffig, goleuadau a gwaith cynnal) oherwydd ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn).

**3.3.4.2** Y prif resymau am y gorwariant a ragamcenir ar:-

**(i)** meysydd parcio (£32k, 7%), i'w briodoli'n bennaf i gostau trwsio a chynnal a chadw;
**(ii)** rheoli gwaith cynnal a chadw (£32k, 4%), yn bennaf oherwydd tangyflawni incwm a gorwario ar gostau trafnidiaeth; a
**(iii)** incwm gwaith stryd (£43k,134%), ynghyd â gorwariant ar gostau staffio mewn perthynas â'r Grant Diogelwch Ffyrdd (£45k).

**3.3.4.3** Un o'r prif resymau nas gellir darogan yn gywir y cyllidebau gwaith ar hyn o bryd yw'r ffaith y byddant yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan y tywydd y gaeaf hwn.

### 3.3.5 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.3.5.1** Roedd gorwariant o £124k (10%) yn y gwasanaeth yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd wedi gorwario gan £163k (5%) erbyn diwedd y flwyddyn. Y prif resymau am y gorwariant rhagdybiedig yw:-

- **(i)** Grant Planning Delivery Wales lle nad yw costau gweithwyr wedi gostwng yn unol â'r gostyngiad yn y grant (£34k);
- **(ii)** Rhagolygir bydd incwm Iechyd yr Amgylchedd yn tangyflawni (£40k, 41%);
- **(iii)** Rhagolygir bydd incwm Rheoli Pla (£25k, 49%) yn syrthio'n brin, oherwydd tangyflawni incwm o ran gwaith masnachol a domestig;
- **(iv)** Incwm Trwyddedu i dangyflawni (£39k, 29%).

**3.3.5.2** Nid yw'r rhagolygon uchod yn cynnwys effaith Ynys Ynni a Thrwyddedu Symud Anifeiliaid oherwydd ni fedrir eu darogan gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd. Cafodd yr Adain Trwyddedu Symud Anifeiliaid (cyllideb flynyddol o £51k) gymorth grant llawn yn y gorffennol ond mae'r grant wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid oedd y cyllid ar gyfer 2014/15 wedi cael ei gadarnhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

### 3.3.6 Eiddo

**3.3.6.1** Roedd tanwariant o £37k (6%) yn y gwasanaeth hwn erbyn diwedd chwarter dau a rhagwelir y bydd yn cydymffurfio â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfan, gydag unrhyw orwariant yn cael ei liniaru gan danwariant mewn meysydd eraill. Y tanwariant mwyaf a ragwelir yw £100k (4%) ar gyflogau a hynny oherwydd swyddi gweigion a secondiadau.

### 3.3.7 Rheoli Gwastraff

**3.3.7.1** Roedd gorwariant o £43k yn y gwasanaeth hwn erbyn canol y flwyddyn (1%), gyda gorwariant rhagdybiedig o £35k am y flwyddyn gyfan oherwydd gorwariant ar gostau storio ym Mryn Sunsur. Nid oes modd darogan yn gywir ar hyn o bryd y sefyllfa o ran toiledau cyhoeddus a rheoli nwy; mae nifer o doiledau cyhoeddus wedi cau neu wedi cael eu trosglwyddo i Gynghorau Cymuned a sefydliadau trydydd sector fel rhan o arbedion effeithlonrwydd 2014/15 ac mae'r effaith lawn yn parhau i ddod drwodd. Mae'n anodd darogan yn ddibynadwy yr adeg hon o'r flwyddyn yr incwm a gynhyrchir o reoli nwy.

## 3.4 Dirprwy Brif Weithredwr

### 3.4.1 Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill

**3.4.1.1** Gorwariant o £54k (9%) yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd gorwariant o £168k (11%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Y prif resymau am hyn yw bod cyllideb ar gyfer dod o hyd i arbedion ac y bydd gorwariant o £176k yn hynny o beth, wedi ei wrthbwyso i raddau gan danwariant ar Brosiect Cydweithio Gogledd Cymru (36k) (oherwydd nad yw'n digwydd mwyach).

### 3.4.2 Corfforaethol a Democrataidd

**3.4.2.1** Gorwariant o £11k (3%) hanner ffordd drwy'r flwyddyn, gyda gorwariant o £26k (1%) yn cael ei ragwedd erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd bod mwy na'r disgwyl wedi manteisio ar y Cynllun Blwydd-dal i Aelodau.

### 3.4.3 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr

**3.4.3.1** Gorwariant o £63k (13%) ar y gyllideb hon yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd wedi gorwario gan £144k (14%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i:-

**(i)** cyllideb heb ei ddefnyddio eto ar gyfer swydd newydd;
**(ii)** arbedion nad oes modd dod o hyd iddynt (£51k); a
**(iii)** gwariant o £33k a ragwelir ar gefnogaeth Sycle nad oes cyllideb ar ei gyfer.

### 3.4.4 Cyllid – Heb gynnwys Budd-daliadau a ganiatawyd

**3.4.4.1** Roedd y gwasanaeth wedi gorwario gan £546k (60%) erbyn canol y flwyddyn a rhagamcenir y bydd y gorwariant yn £757k (86%) erbyn diwedd y flwyddyn. Y prif reswm am hyn yw costau staff asiantaeth yn yr Adain Cyfrifeg. Fodd bynnag, mae nifer y staff asiantaeth yn cael ei ostwng a daw contractau'r mwyafrif ohonynt i ben ar 31 Hydref 2014. Yn ychwanegol at hyn, mae swydd y Swyddog Adran 151 wedi cael ei hysbysebu'n ddiweddar.

**3.4.4.2** Yn yr adroddiad Chwarter 1, rhagdybwyd mai £482k fyddai'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhesymau am y cynnydd o £275k yn y gorwariant a ragdybir yw:-

- Ers cynhyrchu rhagolygon Chwarter 1, cynyddodd y gofyn am Swyddog Adran 151, gyda'r rhagolygon Chwarter 1 ddim yn rhagweld costau llawer y tu draw i Chwarter1. Cynyddodd hyn y rhagolwg gorwariant gan £85k;
- Yn ystod Chwarter 2, er bod y rhan fwyaf o'r staff asiantaeth o fewn Cyfrifeg hefo contractau yn diweddu 31 Hydref 2014, y bwriad nawr yw i gadw tri ohonynt y tu hwnt i ddiwedd Hydref i lenwi swyddi gweigion ac i wneud gwaith prosiect penodol sy'n cael ei gyllido ar wahan. Cynyddodd hyn y rhagolwg gorwariant gan £18k;
- Ar adeg cynhyrchu'r adroddiad Chwarter 1, nid oedd lefel y budd-dal a dderbynnir gan y Grant Gweinyddu Budd-dal Tai yn sicr. Gan nad ydyw'n cael ei ddyrannu ar wahan eleni (bellach mae'n ffurfio rhan o'r Grant Cymorth Refeniw), ac achos ni ddyranwyd cyllideb fel rhan o'r broses gosod y gyllideb flwyddyn diwethaf, bydd hyn yn bwysau ychwanegol o £111k;
- Ers Chwarter1, mae Refeniw a Budd-daliadau wedi prynu meddalwedd newydd, i'w gyllido o arbedion arall yn ystod y flwyddyn. Cost y meddalwedd yw £52k;
- Ers Chwarter 1, mae wedi dod yn glir mai effaith symud y tîm ymchwilio twyll i'r DWP yw arbediad o £30k;
- Mae llond llaw o gynyddion arall i'r rhagolygon ynglyn â than a gorwariannau, sy'n dod i gynnydd net i'r rhagolwg gorwariant o £39k.

### 3.4.5 Adnoddau Dynol

**3.4.5.1** Gorwariant o £163k (41%) yn yr adain hon yn ystod y chwe mis cyntaf a rhagwelir y bydd yn £20k (50%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant hwn hanner ffordd drwy'r flwyddyn i'w briodoli'n bennaf i wariant ar y broses Arfarnu Swyddi a byddir yn gofyn am arian o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Arfarnu Swyddi. Mae'r gorwariant a ragamcenir ar gyfer diwedd y flwyddyn oherwydd nad yw'r ailstrwythuro yn yr adain wedi cyflawni'r arbedion disgwyliedig ac mae'n cymryd yn ganiataol y bydd yr arian wrth gefn ar gyfer Arfarnu Swyddi'n cael ei ddefnyddio yn unol â'r bwriad.

**3.4.6 TGCh**

**3.4.6.1** Roedd tanwariant o £87k (10%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd wedi tanwario gan £188k yn y flwyddyn gyfan. Y rheswm mwyaf am y tanwariant yw swyddi gweigion, gan gynnwys swydd Rheolydd TGCh.

**3.4.7 Cyfreithiol a Phwyllgorau**

**3.4.7.1** Gorwariant o £133k (18%) yn yr adain hon yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn ond rhagwelir y bydd wedi tanwario gan £28k (19%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.4.8 Trawsnewid**

**3.4.8.1** Roedd yr adain hon wedi tanwario gan £37k (13%) yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn a rhagwelir y bydd wedi tanwario gan £63k (9%) erbyn diwedd y flwyddyn. Y prif reswm am y tanwariant yw’r swydd wag ar gyfer Pennaeth y Gwasanaeth.

**3.4.9 Cyllid – Budd-daliadau a Ganiatawyd**

**3.4.9.1** Mae’r gorwariant ragweledig am y flwyddyn yn awr yn £80k (1%) ac yn is na’r swm o £130k a ragdybiwyd yn chwarter 1 ac i’w briodoli i ostyngiad o 3.5% yn y baich achosion.

# PERFFORMIAD ARIANNOL CH2 2014/15

| Cyfadran | Cyllideb wedi'i Phroffilio Ch2 £'000 | Gwirioneddol ac Ymrwymiadau Ch2 £'000 | Amrywiad Ch2 £'000 | Cyllideb Flynyddol £'000 | Canlyniadau Disgwyliedig £'000 | Amrywiad i'r Canlyniadau Disgwyliedig £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllideb wedi'i datganoli i'r Ysgolion | 22,102 | 22,102 | 0 | 43,609 | 43,609 | 0 |
| Addysg Ganolog | 3,389 | 3,222 | -167 | 7,407 | 7,089 | -319 |
| Diwylliant | 757 | 771 | 14 | 2,320 | 2,375 | 55 |
| | **26,248** | **26,095** | **-153** | **53,336** | **53,073** | **-263** |
| **Cymunedau** | 14,229 | 13,647 | -582 | 29,717 | 29,073 | -644 |
| Gofal Cymdeithasol | -1,664 | 3,462 | 5,126 | 1,571 | 1,623 | -49 |
| Tai | | | | | | |
| | **12,565** | **17,109** | **4,544** | **31,288** | **30,696** | **-693** |
| **Datblygiad Cynaliadwy** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 474 | 391 | -83 | 1,171 | 1,096 | -75 |
| Hamdden | 794 | 796 | 2 | 1,945 | 2,023 | 78 |
| Arforol | 50 | 150 | 100 | 395 | 467 | 72 |
| Y Fflyd | -23 | 44 | 67 | -55 | -55 | 0 |
| Priffyrdd | 4,332 | 4,236 | -96 | 9,920 | 10,072 | 152 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,297 | 1,420 | 123 | 3,055 | 2,901 | -154 |
| Eiddo | 576 | 539 | -37 | 452 | 452 | 0 |
| Gwaith y codir amdano | 132 | 93 | -39 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli'r Gyfadran | 29 | 30 | 1 | 57 | 57 | 0 |
| Gwastraff | 3,819 | 3,862 | 43 | 7,876 | 8,096 | 220 |
| | **11,480** | **11,561** | **81** | **24,816** | **25,109** | **293** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 652 | 598 | -54 | 1,490 | 1,658 | 168 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 419 | 430 | 11 | 1,896 | 1,922 | 26 |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | 500 | 563 | 63 | 1,000 | 1,144 | 144 |
| Cyllid – heb gynnwys Budd-daliadau a ganiatawyd | 1,456 | 2,002 | 546 | 876 | 1,716 | 840 |
| Cyllid – Budd-daliadau a ganiatawyd | 3,851 | 4,793 | 942 | 5,918 | 5,998 | 80 |
| Adnoddau Dynol | 399 | 562 | 163 | 40 | 60 | 20 |
| TGCh | 895 | 808 | -87 | 0 | -188 | -188 |
| Cyfreithiol a Phwyllgorau | 753 | 886 | 133 | 149 | 121 | -28 |
| Trawsnewid | 291 | 254 | -37 | 741 | 678 | -63 |
| Archwilio | 112 | 114 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Corfforaethol | 4,844 | 4,844 | 0 | 5,120 | 5,120 | 0 |
| | **14,172** | **15,854** | **1,682** | **17,230** | **18,229** | **999** |
| **Cyfanswm** | **64,465** | **70,619** | **6,154** | **126,670** | **127,107** | **336** |
| **ARIENNIR GAN** | | | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | | | | 22,042 | | |
| Y Dreth Gyngor | | | | 29,512 | | |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | | | | 726 | | |
| Grant Cymorth Refeniw | | | | 74,390 | | |
| | | | | **126,670** | **0** | **0** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWITNI A'R PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **15 HYDREF 2014 A 20 HYDREF 2014** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB 2015/16** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>**01248 752663**<br>**Bethanhughesowen@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi a mabwysiadu'r adroddiad.

**CEFNDIR**

**1.1** Yn yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 14 Gorffennaf 2014, amcangyfrifwyd bod y diffyg cyllidebol yn £7.659m.

**1.2** Yn ddiweddar, ysgrifennodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth at Awdurdodau yn awgrymu y dylent ystyried sut y byddent yn ymateb i ostyngiadau o hyd at -4.5%, dyna ddefnyddiwyd wedyn ar gyfer y clandriadau ariannol. Nid yw'r rhagdybiaeth hon wedi newid.

Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad dros dro ym mis Hydref. Dyma pryd fydd gan y Cyngor arwydd mwy penodol o lefel ei gyllid ar gyfer 2015/16.

**CYLLIDEB 2015/16**

**2.1** Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad dros dro ym mis Hydref 2014 ac wedi hynny, bydd gan y Cyngor syniad cywirach o'i gyllid ar gyfer 2015/16. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd y Setliad Terfynol yn cael ei gyhoeddi hyd fis Rhagfyr 2014.

**2.2** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio i ddiffyg cyllidebol o £7.659m yn 2015/16 a diffyg o £16.6m dros gyfnod o dair blynedd.

**2.3** Ar 1 Medi, rhoddwyd targed arbedion o 10% i'r Adrannau Gwasanaeth yn seiliedig ar eu cyllidebau gros a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno arbedion oedd 30 Medi 2014. Ar hyn o bryd, mae Cyfrifwyr y Gwasanaethau wrthi'n gwerthuso'r cynigion a bydd rhestr yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch.

**2.4** Mae nifer o ffrydiau gweithgaredd wedi bod yn digwydd dros fisoedd yr haf er mwyn nodi arbedion posibl er sylw'r Aelodau. Mae'r holl gynigion yn cael eu rhoi at eu gilydd yn ganolog a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd ar ôl cael eu sgriwtineiddio'n ddadansoddol gan y cyfrifwyr. Isod, ceir crynodeb o'r digwyddiadau/gweithgareddau a gynhaliwyd.

**(i) Herio Gwasanaethau**
Mae hyn wedi digwydd yn achos yr holl wasanaethau; roedd y sesiynau'n gyfle i'r aelodau herio'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn cyd-destun torri costau a darparu gwasanaethau. Yn ystod yr ymarfer hwn, bu modd nodi arbedion gwerth £4.002m. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i sylw'r aelodau yn y man.

**(ii) Awgrymiadau'r Staff**
Cylchredwyd holiadur ymhlith staff yr Awdurdod drwy e-bost a chafwyd nifer o awgrymiadau. Ar yr un pryd, gosodwyd blychau awgrymiadau mewn nifer o lefydd yn yr Awdurdod yn gofyn i staff ddarparu/nodi meysydd lle gellid, o bosib, wneud arbedion. Roedd yr arbedion a nodwyd gan staff werth £335k ac eto, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i sylw'r aelodau yn y man.

**(iii) Adolygiadau Cyllidebol**
Mae'r holl gyllidebau a pherfformiad yn eu herbyn wrthi'n cael eu hadolygu gan y cyfrifwyr ar hyn o bryd, a rhoddir gwybod yn y man am unrhyw addasiadau, mae'r rhai a nodwyd yn barod werth oddeutu £400k.

**(iv) Adolygiadau Goddrychol**
Yn draddodiadol, edrychir ar gyllidebau fesul gwasanaeth. Fodd bynnag, maent yn cael eu harchwilio hefyd ar sail croes-toriadol ar draws y cyngor cyfan ac mae arbedion caffael a nodwyd wrthi'n cael sylw ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion yn mynd allan i dendr, un engraifft o hyn yw'r tendr Bancio, sydd wrthi'n cael ei sgopio rŵan. Mae ymarfer o ran adolygu Cyflenwadau a Gwasanaethau hefyd yn mynd rhagddo ac wedi nodi rhai meysydd lle gellid efallai gwneud arbedion effeithlonrwydd. Cyflwynir y rhain yn y papur ar y Gyllideb ym mis Tachwedd 2014.

**(v) Cyllidebau Sail Sero (CSS)**
Mae'n bosibl y gallai CSS arwain at arbedion sylweddol mewn sawl sefydliad. Mae CSS yn broses llafur-ddwys ac ni fedrir cynnal yr ymarfer yn rhwydd ar gyfer y cyngor cyfan. Mae'n bwysig nodi y gall cynnal ymarfer CSS gasglu bod angen mwy o gyllid ar wasanaeth penodol ac na fyddai modd gwneud arbedion. Y ddau wasanaeth fydd yn cael eu hystyried ar gyfer CSS yw Arforol a Diwylliant.

**(vi) Prosiectau Eraill**
Mae nifer o ddarnau eraill o waith ar y gweill gyda'r nod o sicrhau arbedion, e.e. y Bwrdd Trawsnewid a'r prosiect caffael – disgwylir i'r prosiect hwn sicrhau arbedion oddeutu £264k dros gyfnod o dair blynedd.

**3. Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol – Diweddariad**

**3.1** Yn y diweddariad o'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol, nodir yr angen i wneud arbedion o £7.791m yn ystod 2015/16. Mae hyn yn seiliedig ar ostyngiad o -4.5% yn y Grant Cymorth Refeniw gan Lywodraeth Cymru a chyfanswm arbedion o £15.266m dros y tair blynedd nesaf. Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar y canlynol:-

- Cynnydd o 5% yn y dreth gyngor
- Y rhagdybiaeth y bydd cymorth grant yn gostwng gan -4.5% (gostyngiad cyfartalog ar draws Cymru gyfan)
- Y rhagamcanion a ganlyn o ran chwyddiant:-
  - Dyfarniad tâl o 1% i athrawon a staff eraill
  - Codiad cyffredinol o 0% mewn prisiau
- Chwyddiant ar gontractau'n unig
- Ceir grant Cytundeb Canlyniadau ond dim ond ar lefel 2014/15
- Diogelwch o 0.6% i ysgolion

**3.2** Yn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2014, tybiwyd yn y CATC y byddai'r Dreth Gyngor yn codi gan 5% bob blwyddyn. Ym 2014/15, pennodd y Cyngor godiad o 4.5% a oedd uwchlaw'r cynnydd cyfartalog ar draws Gymru, sef 4.2%. Bydd yr ymgynghoriad yn ystod yr hydref eto'n cynnig opsiwn i godi'r Dreth Gyngor gan 5% - mae cynnydd o 5% ar gyfer eiddo Band D yn cyfateb i oddeutu £49 y flwyddyn neu 94c yr wythnos. Mae lefel gyfredol y Dreth Gyngor ymysg yr isaf yn Lloegr a Chymru a chynigir y codiadau hyn oherwydd y gostyngiad anferthol yn y cyllid a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru a hefyd y rhybudd byr a gafwyd o newid mor fawr.

**3.3** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i gynyddu cyllidebau ysgolion gan 0.6% ar gyfer 2015/16. Dyma'r swm y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2015/16.

**3.4** Mae copi o'r CATC diweddaraf ynghlwm yn Atodiad A.

| | | |
|---|---|---|
| **B –** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | d/b | |
| **C –** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae hwn yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH –** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydy – mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **D –** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydy – mae wnelo'r penderfyniad hwn â phennu'r gyllideb flynyddol. | |
| **DD –** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Adroddiad ydyw hwn gan y Swyddog A151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylw |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E –** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | d/b |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | d/b |
| 4 | **Amgylcheddol** | d/b |
| 5 | **Cydraddoldebau** | d/b |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | d/b |
| 7 | **Arall** | d/b |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad A – Diweddariad o'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig | |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | |
| | | |

## Rhagamcan Ariannol ar gyfer y Tymor Canol - Diweddariad
## Cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor
## Gostyngiad o 4.5% yn y Grant (RSG) gan Lywodraeth Cymru

| | 2015/16 £'000's | 2016/17 £'000's | 2017/18 £'000's |
|---|---|---|---|
| **Lefelau Gwariant Cyfredol/Diwygiedig wedi eu dwyn ymlaen** | 126,670 | 123,806 | 123,045 |
| **Pwysau:** | | | |
| Chwyddiant a Diogelwch i Ysgolion | 172 | 0 | 0 |
| Addasiad Pensiwn Athrawon Medi 2015 ymlaen | 255 | 182 | 0 |
| Ad-daliadau YG @ £70 fesul gweithiwr | 229 | 0 | 0 |
| Ariannu a Llog Cyfalaf | 173 | 173 | 173 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 400 | 400 | 0 |
| Dyfarniad Cyflog 1% i Weithwyr | 708 | 715 | 722 |
| Cynnydd mewn Costau | 500 | 500 | 500 |
| Newidiadau Demograffig | 500 | 500 | 500 |
| Arfarnu Swyddi | 700 | 525 | |
| Methiant i gwrdd â thargedau llynedd 21%/10%/10% | 1,290 | 715 | 380 |
| **Cyfanswm y Newidiadau i'r lefelau gwariant sylfaenol** | 4,927 | 3,710 | 2,275 |
| **Lefelau Gwariant Diwygiedig wedi eu dwyn ymlaen** | 131,597 | 127,516 | 125,320 |
| **Wedi eu cyllido gan:** | | | |
| Llywodraeth Cymru | -92,093 | -90,711 | -89,351 |
| Y Dreth Gyngor | -30,988 | -31,607 | -32,239 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | -726 | -726 | -726 |
| **Cyfanswm y Cyllid gan gynnwys defnyddio arian wrth gefn o'r Blynyddoedd Blaenorol** | -123,806 | -123,045 | -122,316 |
| **Arbedion ychwanegol sydd eu hangen i falansio'r gyllideb neu wneud defnydd ychwanegol o arian wrth gefn** | 7,791 | 4,472 | 3,004 |
| Arbedion posibl a nodwyd drwy'r Adolygiadau Gwasanaeth | | | |
| Addasiadau Lefel Gwasanaeth | 693 | | |
| Gostyngiadau yn y Gwasanaethau | 2,277 | | |
| Caffael / Diwygio Contractau | 125 | | 250 |
| Creu Incwm | 92 | | |
| Addasiadau o ran Staffio | 815 | | |
| | 4,002 | | 250 |
| Arbedion Posibl a nodwyd o Arolygon Staff | 355 | | |
| Cynigion Caffael | 64 | 100 | 100 |
| Adolygiadau o'r Cyllidebau Corfforaethol | 400 | | |
| **Yr arbedion y mae angen eu gwneud o bosib i falansio'r gyllideb** | **2,970** | **4,372** | **2,654** |

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***School bus contracts – tenders and charges structure***
***Cytundebau Bysiau Ysgol – y strwythur tendro a'r taliadau***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>[un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater hwn yn ymwneud ag arian cyhoeddus ac mae yna fudd i'r cyhoedd o ran sicrhau tryloywder mewn perthynas â sut mae busnes y Cyngor yn cael ei drefnu a'r strwythur y mae'n ei fabwysiadu i ddarparu ei wasanaethau.<br><br>…………………………………………………..<br>The matter involves public money and there is a public interest in ensuring transparency in relation to how council business is organised and the structure it adopts in discharging its services. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Bydd gwybodaeth mewn perthynas â materion busnes ac ariannol sensitif yr Awdurdod yn cael ei thrafod, a gall fod yn fanteisiol i'r cwmniau hynny sydd gyda diddordeb mewn gwneud ceisiadau tendro.<br><br>..................................................................<br>Information relating to sensitive financial and business affairs of the Authority are to be discussed, which could be seen as advantageous to those companies with an interest in presenting tenders. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank